

SAFEGUARDING CHILDREN AND YOUNG PEOPLE IN EDUCATIONAL SETTINGS

Gweithdrefnau
Diogelu a Pholisi Ysgol
Gymraeg Gwynllyw

Medi 2025

TORFAEN COUNTY BOROUGH
BWRDEISTREF SIROL TORFAEN

Cynnwys

Datganiad Polisi 4

Rolau a Chyfrifoldebau - Canllaw Cyflym

- Cyrff Llywodraethu 5
  - Pan fod rhieni'n cynnwys Llywodraethwyr 6
  - Rôl Cadeirydd y Llywodraethwyr 6
  - Rôl y Llywodraethwr Diogelu Plant (LlDP) 7
  - Rôl y Llywodraethwyr i gyd 7
- Ysgolion 8
  - Rôl y Person Diogelu Dynodedig (PDD)
- Awdurdod Lleol 10

Y Broses Atgyfeirio 11

- Gwneud Atgyfeiriad 12

Polisi Model i Ysgolion 14

Cyflwyniad 16

Ymrwymiad Ysgol 16

1. Recriwtio a Dewis Mwy Diogel 17
2. Arfer Diogel 17
3. Gwybodaeth Diogelu i Ddisgyblion 18
4. Partneriaeth gyda Rhieni 18
5. Partneriaeth gydag Eraill 19
6. Hyfforddiant Ysgol a Chyflwyno Staff 19
7. Cefnogaeth, Cyngor a Chyfarwyddyd i Staff 19
8. Plant Sydd Ar Goll o Addysg 20
9. Cyfrinachedd 20
10. Gwybodaeth i Ddisgyblion 20
11. Rolau a Chyfrifoldebau: 21
    - Corff Llywodraethol 21
    - Pennaeth 22
    - PDD 22
    - Staff a Gwirfoddolwyr 23

Adnabod Plant a Phobl Ifanc a allai fod yn dioddef niwed arwyddocaol 24

Cymryd Camau i sicrhau bod Plant yn Ddiogel yn Yr Ysgol a'r Cartref 26

Cefnogi'r Disgybl mewn Perygl 28

Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (VAWDASV) 29

Ymgyrch Encompass 29
Diogelu disgyblion sy'n agored i Eithafiaeth - Dyletswydd Prevent 29
Llurgunio Organau Rhywiol Merched (LlORhM) Gorfodol Dyletswydd Adrodd 30
Ymddygiad Rhywiol Niweidiol 30
Plant ag Anghenion Dysgu Ychwanegol 30
Rhaid i Staff Ddweud yn Syth 30
Ymateb i Ddatgeliad 31
Camau gan y PDD 31

Camau ar ôl Atgyfeiriad Amddiffyn Plant 32
Cofnodi a Monitro 32
Cefnogi'r Plentyn a Phartneriaeth gyda Rhieni 33

Honiadau ynglŷn â pherson(au) sy'n gweithio yn neu ar ran yr ysgol (gan gynnwys gwirfoddolwyr) 33

Cyfrifoldebau Diogelu mewn Amgylchiadau Penodol 35

Cyfeirnodau 36

Atodiadau

1. Fframwaith Deddfwriaethol 37
2. Categorïau Camdriniaeth 41
3. Canllaw i Ddefnyddwyr a Dolen Teclyn Hunanwerthuso Diogelu Adran 175 42
4. Pro-fforma adroddiad i gyfarfod strategaeth 46
5. Cofnod Digwyddiadau Diogelu 49
6. Ffurflen Dyletswydd i Adrodd 50
7. Teclyn Asesiad Risg Dyletswydd PREVENT 53
8. Trosglwyddo Cofnodion Amddiffyn Plant o fewn Sefydliad Addysgol 54

DATGANIAD POLISI

Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen yn ymrwymedig i wella ansawdd bywyd pobl yn Nhorfaen a sicrhau fod yna arferion gwaith effeithiol sy'n amddiffyn plant a phobl ifanc rhag niwed ym mhob man yn y Cyngor.

Mae Diogelu Plant, Pobl Ifanc ac Oedolion mewn Perygl yn gosod allan Polisi a Chanllawiau'r Cyngor ar gyfer diogelu plant, pobl ifanc ac oedolion mewn perygl.

Mae'r Polisi a Chanllawiau Diogelu:

- Yn esbonio sut mae'r Cyngor yn ymgymryd â'i ymrwymiadau cyfreithiol ar gyfer diogelu plant, pobl ifanc ac oedolion mewn perygl.
- Yn rhoi sicrwydd i aelodau'r cyhoedd, defnyddwyr y gwasanaeth, aelodau etholedig, cyflogeion a phobl sy'n gweithio a ran y Cyngor, bod yna drefniadau eglur yn bod i ddiogelu a gwarchod plant, pobl ac oedolion mewn perygl.
- Yn rhoi canllawiau eglur i staff y Cyngor ac aelodau etholedig ar gyfer achlysur pan fo plentyn, person ifanc neu oedolyn efallai mewn perygl.

Mae staff yn y Gwasanaeth Addysg yn derbyn ac yn cydnabod ein cyfrifoldebau i ddatblygu ymwybyddiaeth o'r problemau sy'n achosi plant, pobl ifanc ac oedolion i fod mewn perygl ac i ddatblygu ac adolygu ein harferion yn barhaus.

Byddwn yn diogelu plant, pobl ifanc ac oedolion mewn perygl trwy:

- Wneud diogelu'n flaenoriaeth allweddol
- Mabwysiadu canllawiau sy'n darparu gweithdrefnau i staff - amlinellir y rhain yn fanwl yn y ddogfen hon.
- Rhannu gwybodaeth am warchod a diogelu plant gyda phlant, rhieni a gofalwyr, staff a gwirfoddolwyr
- Rhannu gwybodaeth yn brydlon am bryderon gydag asiantaethau sydd angen gwybod am y rheiny a chynnwys rhieni a phlant mewn ffordd briodol.
- Dilyn y gweithdrefnau ar gyfer recriwtio a dewis staff yn ddiogel.
- Diweddaru ein hyfforddiant diogelu'n gyson.
- Darparu rheolaeth effeithiol i staff a gwirfoddolwyr trwy oruchwyliaeth, cefnogaeth a hyfforddiant.
- Rydym hefyd yn ymrwymedig at fonitro ac adolygu'n gyson ein polisi a'n harferion a rhannu arfer da'n rheolaidd.

Mae'r ddogfen hon wedi ei hysgrifennu ar gyfer holl staff addysg ond yn arbennig i'r rheiny mewn ysgolion, gan gynnwys gwirfoddolwyr a llywodraethwyr. Rhaid i bob lleoliad addysg edrych eto ar eu polisi Diogelu pob blwyddyn a dylent sicrhau bod y staff i gyd, gan gynnwys staff o fannau eraill sy'n ymweld â'r ysgol, yn gyfarwydd â'i ddisgwyliadau. Hefyd, pan fo disgyblion yn mynd ar wibdeithiau neu'n mynd i ddarparwyr addysg allanol neu leoliadau gwaith, dylai ysgolion gael y polisi a'r cyfarwyddyd yn ddefnyddiol wrth sicrhau bod arferion diogelu da'n cael eu cynnal.

ROLAU A CHYFRIFOLDEBAU

CYRFF LLYWODRAETHU

Mae Cyrff Llywodraethu'n gyfrifol am sicrhau fod polisïau a gweithdrefnau effeithiol yn bod i ddiogelu a hyrwyddo lles plant, monitro eu cydymffurfiad â nhw a sicrhau fod gan eu sefydliad:

Polisi a gweithdrefnau sy'n gyson â chanllawiau Bwrdd Diogelu Gwent a Pholisi Diogelu Plant a Phobl Ifanc yr Awdurdod Lleol. Mae disgwyl i'r Corff Llywodraethu adolygu'r rhain yn flynyddol a sicrhau bod rhieni'n gwybod bod polisi'n bod a'i fod ar gael i'w weld ar gais. Mae polisi model i ysgolion ei fabwysiadu wedi ei gynnwys yn y ddogfen hon. Mae'n rhaid i Lywodraethwyr sicrhau bod gan eu hysgol aelod o'r uwch dîm rheoli sydd wedi eu dynodi i fod â chyfrifoldeb arweiniol ar gyfer diogelu plant fel y Person Diogelu Dynodedig (PDD), eu bod wedi eu hyfforddi'n briodol **a** bod ganddyn nhw amser i gyflawni eu dyletswyddau. Dylai'r corff llywodraethol fodloni eu hunain bod yna systemau gwydn yn bod, os bydd yr aelod enwebedig o'r staff yn absennol o'r ysgol am unrhyw reswm, er mwyn sicrhau bod modd ymdrin ag unrhyw fater diogelu mewn ffordd briodol ac effeithlon

- Dylai llywodraethwyr dderbyn gwybodaeth am weithgaredd diogelu yn eu sefydliad heb dorri cyfrinachedd. Dylid defnyddio'r wybodaeth hon fel rhan o adolygiad blynyddol a pharhaus polisi a gweithdrefnau'r ysgol, a rhaid i'r corff llywodraethol gywiro, heb oedi, unrhyw ddiffygion neu wendidau a ddaw i'w sylw mewn perthynas ag unrhyw drefniadau diogelu plant.

- Rydym yn parhau i argymell, yn unol ag argymhellion Clywch a Chyfarwyddyd LlC 272/2021 Cadw Dysgwyr yn Ddiogel, bod gan bob Corff Llywodraethol Lywodraethwr Arweiniol i sicrhau bod diogelu plant yn cael ystyriaeth briodol - y Llywodraethwr Diogelu Plant (LlDP)

- Mae angen hefyd i Lywodraethwyr weithredu gweithdrefnau recriwtio a chadw diogel yn unol â chyfarwyddyd yr Awdurdod Lleol (ALl) a goruchwylio recriwtio diogel staff. Mae hyn yn cynnwys sicrhau bod gan bob aelod o staff, gan gynnwys gwirfoddolwyr nad oes goruchwylio arnynt, wiriad uwch gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (GDG) ar adeg eu cyflogi gan yr ysgol. Rhaid adnewyddu gwiriadau'r GDG pob tair blynedd, ac eithrio yn achos athrawon llanw (ble mae hygludedd yn berthnasol), a dylid cadw cofrestr o wiriadau GDG a'i monitro'n rheoliad.

- Yn unol â Chyfarwyddyd LlC 272/2021, Cadw Dysgwyr yn Ddiogel, dylai llywodraethwyr sicrhau fod gan eu hysgol ddatganiad polisi recriwtio a dewis ysgrifenedig diamwys sy'n cydymffurfio â chyfarwyddyd yr ALl, e.e.

  Mae'r ysgol hon yn ymrwymedig at ddiogelu a hyrwyddo lles plant a phobl ifanc, ac mae'n disgwyl i staff a gwirfoddolwyr rannu'r ymrwymiad yma.

- Dylai Llywodraethwyr sicrhau bod gan y Pennaeth a'r uwch dîm rheoli brosesau gwydn i sicrhau lles disgyblion sy'n cael eu haddysgu i ffwrdd o'r safle, mewn lleoliadau a gyda darparwyr eraill. Ble mae disgyblion yn cael eu hystyried yn fregus (e.e. oherwydd bod gan y disgybl anghenion dysgu ychwanegol), dylai'r corff llywodraethol sicrhau hefyd bod unrhyw gamau ychwanegol wedi cael eu cymryd i warchod y disgyblion bregus yma - mae hyn yn arbennig o bwysig i lywodraethwyr ysgolion uwchradd.

- Rhaid i lywodraethwyr sicrhau, ble mae gwasanaethau neu weithgareddau'n cael eu darparu gan gorff arall, fod gan y corff dan sylw bolisïau a gweithdrefnau priodol mewn perthynas â diogelu a bod trefniadau i gysylltu â'r ysgol am y materion yma. Dylid cadw cofrestr o weithgareddau o'r fath hefyd.

- Rhaid i Gadeirydd y Llywodraethwyr (CLl) arwain os oes cyhuddiad yn erbyn y Pennaeth , gan gymryd cyngor yn syth gan y Cyfarwyddwr Addysg. Yn yr amgylchiadau yma bydd Adnoddau Dynol Addysg hefyd yn cynnig cyngor di-oed i gadeirydd y llywodraethwyr.

- Dylai Llywodraethwyr sicrhau fod y Person Diogelu Dynodedig (PDD) ar gyfer diogelu plant, eu dirprwy, y Llywodraethwyr Diogelu Plant (LlDP) a Chadeirydd y Llywodraethwyr (CLl) yn ymgymryd â hyfforddiant i'w cefnogi yn eu rolau yn unol â gofynion Bwrdd Diogelu Gwent a'r ALl a'i fod yn cael ei ailadrodd er mwyn sicrhau bod eu gwybodaeth a'u sgiliau'n gyfredol.

- Mae'n rhaid i'r Corff Llywodraethol sicrhau bod unrhyw ddata y mae ei angen ar yr ALl at ddibenion monitro ar gael.

Bydd Llywodraethwyr yn sicrhau bod eu Pennaeth a phob aelod arall o'r staff a gwirfoddolwyr sy'n gweithio gyda phlant yn gwneud hyfforddiant er mwyn cael y wybodaeth a'r sgiliau angenrheidiol i gyflawni eu cyfrifoldebau diogelu plant yn effeithiol, a bod yr hyfforddiant yn cael ei gadw'n gyfredol yn ôl y gofyn gan yr ALl/Bwrdd Diogelu Gwent.

Mae Llywodraethwyr yn gyfrifol am ddiogelu pob disgybl ar gofrestr yr ysgol **(gweler Deddf Addysg 2002, adran 175 - manylion yn Atodiad 1).**

Pan fo Rhieni'n Cynnwys Llywodraethwyr mewn Materion Diogelu Plant

- Esboniwch nad oes gan lywodraethwyr rôl weithredol mewn diogelu plant (oni bai eich bod yn Gadeirydd y Llywodraethwyr - gweler isod)
- Cyfeiriwch unrhyw bryderon at y Pennaeth
- Pan fo beirniadaeth o unrhyw agwedd ar achos, (e.e. ei hynt neu'r staff sydd ynghlwm) yna cyfeiriwch unrhyw bryderon at y Pennaeth

Rôl Cadeirydd y Llywodraethwyr

Mae angen cydgysylltu (gan gymryd gofal gyda chyfrinachedd) gyda'r Pennaeth/PDD ynglŷn â honiadau o gamdriniaeth plant yn erbyn aelod o staff neu wirfoddolwr.

Pan fo honiad o gamdriniaeth plant (**Gweler Atodiad 2**) yn erbyn y Pennaeth, mae gan Gadeirydd y Llywodraethwyr gyfrifoldeb am oruchwylio'r gweithdrefnau mewn perthynas â chydgysylltu â'r Swyddog Diogelu Arweiniol ar gyfer y Gwasanaeth Addysg, yr Hwb Cymorth a Diogelu Amlasiantaeth (MASSH) a'r Heddlu.

Gall hyn gynnwys cymryd rhan posibl mewn trafodaethau strategaeth amlasiantaeth (ond nid unrhyw rôl ymchwilio uniongyrchol, ond yn hytrach, darparu gwybodaeth a sicrhau cyfathrebu da rhwng y partïon i gyd)

Rôl y Llywodraethwr Diogelu Plant (LlDP)

Mae'r LlDP yn chwarae rôl allweddol wrth sicrhau bod y corff llywodraethol yn cyflawni ei gyfrifoldebau mewn perthynas â diogelu plant. Mae'r cyfrifoldebau hyn yn cynnwys:

- sicrhau bod gan yr ysgol bolisi diogelu plant effeithiol mewn grym sy'n cael ei adolygu'n flynyddol a'i bod yn dilyn gweithdrefnau lleol ac yn cynnwys ystyriaeth o sut mae ei gyfrifoldebau wedi eu cyflawni
- cyfrannu at gwblhau Teclyn Hunanwerthuso Diogelu Adran 175 **(gweler atodiad 3)**
- sicrhau bod yr ysgol yn mabwysiadu gweithdrefnau recriwtio a chadw diogel i'w staff a gwirfoddolwyr
- sicrhau bod gweithdrefnau'n bod ar gyfer ymdrin â chyhuddiadau o gamdriniaeth yn erbyn staff a gwirfoddolwyr
- sicrhau bod uwch aelod dynodedig o'r staff yn cael eu penodi i ymdrin â materion diogelu plant
- sicrhau bod y dyletswyddau uchod yn cael eu cyflawni.

Fel y llywodraethwr sy'n gyfrifol am ddiogelu plant, byddwch yn cymryd cyfrifoldeb am bob mater diogelu plant ac yn chwarae rôl wrth sicrhau bod plant mewn addysg yn cael eu cadw'n ddiogel rhag niwed. Eich swydd chi yw sicrhau bod yr agenda diogelu yn cael ei ymwreiddio yn ethos eich ysgol.

Diogelu Plant - Rôl bob Llywodraethwr

Mae'r agenda diogelu'n cynnwys amrywiaeth eang o bynciau o fonitro gofal bugeiliol a strategaethau gwrth-fwlio i sicrhau bod plant yn cael eu cadw'n ddiogel rhag camdriniaeth ac esgeulustra. Dylai pob aelod o gyrff llywodraethol ymgymryd â hyfforddiant diogelu perthnasol a hyfforddiant amddiffyn plant.

Dyma rai ffyrdd y gallwch helpu'ch ysgol i gyflawni ei dyletswyddau:

- gwybod y cyfarwyddyd cenedlaethol a lleol diweddaraf
- sicrhau bod polisïau a gweithdrefnau'n bod a'u bod yn cael eu hadolygu'n rheolaidd
- sicrhau bod materion diogelu plant yn cael eu cadw ar yr agenda mewn cyfarfodydd ysgol a llywodraethwyr
- sicrhau bod polisïau ysgol yn canolbwyntio ar y plentyn ac yn ystyried unrhyw faterion posibl mewn perthynas â diogelu plant
- sicrhau bod staff a gwirfoddolwyr i gyd sy'n gweithio gyda phlant yn ymgymryd â hyfforddiant i gael y wybodaeth a'r sgiliau y mae eu hangen i gyflawni eu cyfrifoldebau diogelu plant yn effeithiol a bod yr hyfforddiant yma'n cael ei gadw'n gyfredol

Dylai staff i gyd dderbyn gwybodaeth sylfaenol am ddiogelu plant ar adeg dechrau'n eu swydd a dylent ddilyn hyfforddiant ffurfiol pob 3 blynedd - dylai cyfle fod serch hynny i adnewyddu hyfforddiant diogelu pob blwyddyn ynghyd â thrafodaethau rheolaidd mewn cyfarfodydd staff. Dylai'r rheiny mewn ysgolion sydd â chyfrifoldebau penodol am ddiogelu plant e.e. y PDD, y Dirprwy PDD, y LlDP a CLl fynd i hyfforddiant mwy cynhwysfawr i'w cefnogi yn eu rolau a dylid adnewyddu hyn **o leiaf** pob dwy flynedd. Dylai pob llywodraethwr wneud hyfforddiant sylfaenol diogelu plant a, fan lleiaf, dylent gwblhau modiwlau 1,2,3 a 5 y Modiwlau Cadw Dysgwyr yn Ddiogel.

Rôl yr Ysgol

Am wybodaeth fwy manwl am bob agwedd ar weithdrefnau diogelu ysgolion, gwelwch y polisi diogelu model yn adran nesaf y ddogfen **(tudalen 14)**

Rôl y Person Diogelu Dynodedig (PDD)

- Rhaid i bob ysgol/darparwr dysgu fod â PDD sydd â chyfrifoldeb arweiniol ar gyfer rheoli materion ac achosion diogelu ac amddiffyn plant. Rhaid i'r person fod yn aelod o dîm arwain neu reoli'r ysgol/darparwr dysgu. Rhaid i ddeiliad y swydd fod wedi eu hyfforddi'n briodol yn unol â gofynion yr ALl a Bwrdd Diogelu Gwent ac yn gallu rhoi cyngor a chefnogaeth i staff eraill. Cyfrifoldeb yr ysgol/lleoliad yw'r hyfforddiant, er bod yr Awdurdod Lleol yn darparu hyfforddiant diogelu i PDD a Llywodraethwyr Dynodedig. Mae amrywiaeth o gyrsiau hyfforddiant hefyd ar gael trwy Fwrdd Diogelu Gwent trwy www.gwentsafeguarding.org.uk

Dylai'r PDD geisio sicrhau bod eu sefydliad yn creu ethos sy'n helpu plant i deimlo'n ddiogel a'u bod yn gallu siarad yn rhwydd, gan wybod y bydd rhywun yn gwrando arnyn nhw a bod eu pryderon yn cael eu trin o ddifri. Dylid penodi Dirprwy PDD hefyd i roi cefnogaeth a llanw rôl y PDD pan nad yw'r person hwnnw ar gael.

Dylai'r Pennaeth sicrhau bod y PDD

- Yn cael digon o amser ac adnoddau i gwblhau'r rôl yn effeithiol, a dylid diffinio hyn yn eglur yn nisgrifiad swydd deiliad y swydd.
- Yn gallu cael y lefelau o hyfforddiant a chymorth y mae eu hangen i ymgymryd â'r rôl
- Ag amser i fynd i a rhoi adroddiadau a chyngor i gynadleddau achos a chyfarfodydd eraill rhwng asiantaethau yn ôl y gofyn **(Gweler Atodiad 4 am ffurf pro-fforma o Adroddiad i gyfarfod strategaeth)**

Dylai'r PDD:

- Gymryd cyfrifoldeb am a rhoi gwybodaeth a chyngor am ddiogelu ac arferion diogelu plant, datblygiad polisi a phroffesiynol yn yr ysgol neu'r gwasanaeth a gweithio gydag asiantaethau eraill yn ôl yr angen.

- Bod yn bwynt cyswllt ac yn ffynhonnell cefnogaeth, cyngor ac arbenigedd yn yr ysgol/lleoliad wrth benderfynu a yw'n angenrheidiol gwneud atgyfeiriad trwy gydgysylltu â'r asiantaethau perthnasol yn ôl y gofyn.

- Sicrhau bod polisi diogelu'r ysgol/lleoliad yn cael ei ddiweddaru a'i adolygu'n flynyddol

- Sicrhau bod y Teclyn Hunanwerthuso Diogelu Adran 175 yn cael ei gwblhau'n flynyddol **(gweler atodiad 3)**

- Sicrhau bod staff newydd a dros dro a gwirfoddolwyr yn ymwybodol o weithdrefnau a sut i gael cyngor. Pan for grwpiau eraill yn defnyddio safle'r ysgol, dylai'r PDD sicrhau bod defnyddwyr eraill y safle'n ymwybodol o ddisgwyliadau uchel yr ysgol neu'r lleoliad ynglŷn â diogelu a dylai ofyn i gael gweld polisi diogelu'r grŵp.

- Codi ymwybyddiaeth o'r polisi a gweithdrefnau gyda rhieni a gofalwyr

- Cydgysylltu â'r LlDP fel y gallan nhw adrodd am faterion diogelu wrth y corff llywodraethol

- Sicrhau bod glynu at Bolisi a Gweithdrefnau Diogelu'r ysgol neu'r lleoliad a dylai ddweud wrth Ofal Cymdeithasol am bryderon perthnasol am blant unigol

- Cydgysylltu â Gofal Cymdeithasol a'r Heddlu fel sy'n briodol.

- Bod yn ymwybodol o Fwrdd Diogelu Gwent a bod yn gyfarwydd â gweithdrefnau.

- Defnyddio My Concern (neu system amgen priodol os nad yw'r ysgol yn defnyddio My Concern) i gadw cofnodion manwl, cywir a diogel o blant y mae pryderon diogelu'n bod mewn perthynas â nhw. Mae'r cofnodion yma'n gyfrinachol a dylid eu cadw ar wahân i gofnodion disgyblion. Dylent gynnwys cronoleg o bryderon, atgyfeiriadau, cyfarfodydd, galwadau ffôn ac e-byst.

- Sicrhau bod cofnod achos unigol/log diogelu plant yn cael ei gynnal o'r camau a gymerir gan yr ysgol/lleoliad, y cysylltiad ag asiantaethau eraill a bod y canlyniad yn cael ei gofnodi. **Gweler Atodiad 5 – Log Digwyddiadau Diogelu am fanylion y dylid eu cynnwys**

- Sicrhau bod y wybodaeth berthnasol ar gael ar adeg yr atgyfeiriad a bod yr atgyfeiriad yn cael ei gadarnhau'n ysgrifenedig, yn gyfrinachol yn unol â'r broses atgyfeirio.

- Adnabod anghenion hyfforddiant yn yr ysgol/gwasanaeth dysgu a sicrhau bod y staff, y llywodraethwyr a'r gwirfoddolwyr i gyd wedi eu hyfforddi'n briodol a gwybod y diweddaraf gyda deddfwriaeth newydd etc. Dylai pob PDD sicrhau bod eu hyfforddiant eu hunain yn cael ei ddiweddaru pob dwy flynedd.

- Sicrhau bod cofnod o'r holl hyfforddiant diogelu'n cael ei gynnal a'i fonitro.

- Sicrhau bod yr aelod(au) priodol o'r staff yn mynd i gyfarfodydd strategaeth diogelu plant a bod yr ysgol yn darparu adroddiadau ysgrifenedig. Dylai'r ysgol bob amser ddarparu adroddiad ysgrifenedig yn ogystal â mynd i'r cyfarfod strategaeth neu'r adolygiad - dylai'r adroddiad gael ei roi i gadeirydd y cyfarfod strategaeth diogelu plant, p'un ai gofynnir amdano ai peidio.

- Pan fo plant yn gadael yr ysgol/lleoliad, dylai'r PDD sicrhau bod eu ffeil diogelu plant yn cael ei gopïo i'r sefydliad newydd cyn gynted â phosibl. Dylai gael ei throsglwyddo ar wahân i brif ffeil y disgybl yn unol â Pholisi Cadw Ysgol yr ALl.

- Cefnogi'r Pennaeth a Chadeirydd y Llywodraethwyr i sicrhau bod gan yr ysgol weithdrefnau recriwtio a chyhuddo diogel gwydn.

RÔL YR AWDURDOD LLEOL

Mae gan yr Awdurdod Lleol (ALl) gyfrifoldebau am ddiogelu ar dair lefel a bydd yn sicrhau bod canllawiau Bwrdd Diogelu Gwent yn cael eu cadw.

Cyfrifoldebau Strategol
Ar y lefel hon bydd yr ALl yn sicrhau:

- Bod pob partner yn dyrannu adnoddau i gefnogi gwaith Bwrdd Diogelu Gwent
- Bod Uwch Swyddogion, gan gynnwys Addysg, yn cynrychioli'r ALl ar Fwrdd Diogelu Gwent a bod yr ALl yn cyfrannu'n effeithiol at gynllunio gwasanaethau wedi eu cydlynu i fodloni anghenion plant.
- Gweithio gydag asiantaethau eraill i gyflwyno a chefnogi gwaith partneriaeth effeithiol
- Bod adnoddau'n cael eu rhoi i alluogi'r ALl ac ysgolion a gynhelir i gyflawni eu cyfrifoldebau am ddiogelu plant mewn ffordd ddigonol.
- Cydgysylltu effeithiol gydag Awdurdodau'r Esgobaeth mewn perthynas â threfniadau ar gyfer ysgolion a gynorthwyir yn yr ardal
- Monitro cydymffurfiad ysgolion/lleoliadau a gynhelir gyda Chyfarwyddyd LlC - Cadw Dysgwyr yn Ddiogel
- Datrys problemau rhwng asiantaethau cyn gynted ag y maen nhw'n dod i sylw
- Chwarae rhan lawn mewn adolygiadau arfer plant yn unol â gofynion

Cyfrifoldebau Cefnogaeth

Ar y lefel hon bydd yr ALl yn sicrhau

- Bod hyfforddiant cyflwyno i staff newydd yn y gwasanaeth a staff a fydd yn gweithio gyda phlant mewn ysgolion yn cynnwys hyfforddiant a fydd yn eu galluogi i gyflawni eu cyfrifoldebau'n effeithiol mewn perthynas â diogelu plant. Bydd yr ALl hefyd yn sicrhau bod hyfforddiant adnewyddu'n cael ei gwblhau.
- Bod llywodraethwyr yn derbyn hyfforddiant priodol am eu cyfrifoldebau diogelu ac wrth drin cyhuddiadau o gamdriniaeth yn erbyn staff yr ysgol
- Sicrhau bod hyfforddiant pellach mewn gwaith rhwng asiantaethau a hyfforddiant adnewyddu i ddiogelu plant ar gael naill ai o Fwrdd Diogelu Gwent neu'n unol â safonau a osodir gan Fwrdd Diogelu Gwent.
- Bod cofnod o bob person diogelu dynodedig (PDD) a llywodraethwyr dynodedig diogelu plant mewn ysgolion yn cael ei gadw, ynghyd â chofnod o'r hyfforddiant a gwblhawyd
- Darperir polisïau model i ysgolion ar bob agwedd o ddiogelu plant, gan gynnwys recriwtio a gweithdrefnau ar gyfer trin cyhuddiadau o gamdriniaeth yn erbyn staff a gwirfoddolwyr yn gyson â Chyfarwyddyd LlC
- Bod goruchwylio o gyhuddiadau o gamdriniaeth a bod cysylltu gyda'r heddlu a MASSH a bod cyngor, cyfarwyddyd a chefnogaeth i ysgolion a PDD yn cael eu rhoi mewn achosion unigol
- Bod trefniadau'n bod i gefnogi staff yn y gwasanaeth ac ysgolion sydd â chyfrifoldeb dynodedig am ddiogelu plant.

Cyfrifoldebau Gweithredol

Ar y lefel hon bydd yr ALl yn:

- Gweithredu gweithdrefnau recriwtio diogel a sicrhau bod gwiriadau priodol yn cael eu gwneud ar staff newydd a gwirfoddolwyr heb oruchwyliaeth a fydd yn gweithio gyda phlant, gan gynnwys gwiriadau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd
- Diogelu a hyrwyddo lles plant sydd heb gael lle mewn ysgol, neu sydd wedi eu gwahardd o'r ysgol, gan gynnwys y rheiny sy'n cael eu haddysgu mewn unedau atgyfeirio disgyblion neu ddarpariaeth amgen

- Ceisio datblygu perthnasau effeithiol gydag addysgwyr cartref gyda'r bwriad o ddiogelu buddion addysgol a lles plant a phobl ifanc.
- Cyflwyno trefniadau ar gyfer goruchwylio o gamdriniaeth yn erbyn staff yn y gwasanaeth neu mewn ysgolion yn unol â chyfarwyddyd LlC, Gweithdrefnau disgyblu a diswyddo staff ysgol: https://www.llyw.cymru/gweithdrefnau-disgyblu-diswyddo-staff-ysgol
- Gweithio gydag ysgolion a phartneriaid Bwrdd Diogelu Gwent i sicrhau bod cyhuddiadau yn cael eu trin mewn ffordd gyflym, deg a chyson a bod atgyfeiriadau priodol yn cael eu gwneud i Gyngor y Gweithlu Addysg (CGA)
- Sicrhau bod y staff i gyd sy'n gweithio gyda phlant (gan gynnwys y rheiny sy'n cyflawni swyddogaethau ar ran y gwasanaeth) yn derbyn hyfforddiant sy'n eu galluogi i gyflawni eu cyfrifoldebau diogelu plant yn effeithiol

Y Broses Atgyfeirio

Dylai atgyfeiriadau gael eu gwneud i MASSH cyn gynted ag y bydd problem, amheuaeth neu bryder am blentyn yn dod i'r amlwg, ac yn sicr o fewn 24 awr. Y tu allan i oriau swyddfa, dylid gwneud atgyfeiriadau i'r tîm dyletswydd mewn argyfwng neu'r heddlu.

Nid yw'r Gwasanaeth Addysg yn derbyn atgyfeiriadau diogelu plant, ond gallan nhw gynnig cyngor a chefnogaeth. **Os oes gennych unrhyw bryderon am ddiogelwch plentyn, dylech wneud atgyfeiriad**

- Gellir gofyn am gyngor gan y cyrff statudol. Gellir gofyn am gyngor am ddiogelu pan nad yw'n fater brys neu ddim yn ymwneud ag atgyfeiriad hefyd gan y Gwasanaeth Addysg.

- Serch hynny, ni ddylai'r drafodaeth hon beri oedi ar unrhyw gamau brys i ddiogelu plentyn. **Y rheol aur yw - os nad ydych wedi penderfynu neu os ydych yn ansicr, gwnewch Atgyfeiriad Amddiffyn Plant.** Os ydych chi'n dal i amau neu'n anfodlon gydag unrhyw gyngor yna gwnewch atgyferiad bob tro

- Ni fydd gwneud atgyfeiriad o reidrwydd yn cychwyn ymchwiliad ond bydd yn gwneud y cyrff hynny (yr Heddlu a Gofal Cymdeithasol) sydd â chyfrifoldeb statudol am wneud penderfyniadau o'r fath yn ymwybodol o bryderon. Wrth benderfynu a ddylai atgyfeiriad gael ei wneud, efallai bydd angen i chi ddod o hyd i beth gwybodaeth e.e. enw'r plentyn, dyddiad geni etc., yr un wybodaeth os yw ar gael mewn perthynas â'r tramgwyddwr honedig, beth ddigwyddodd - y ffeithiau fel y'i hadroddwyd gan y plentyn neu'r oedolyn a welodd y digwyddiad.

- Mae'n bwysig nad yw PDD neu Benaethiaid yn ymchwilio i'r cyhuddiad er mwyn eu bodloni nhw eu hunain bod digwyddiad wedi digwydd. Gallai hyn niweidio unrhyw ymchwiliad wedyn gan yr heddlu a gallai hefyd rhybuddio tramgwyddwr eu bod wedi eu dal. Ble mae yna dystiolaeth ar gael yn syth e.e. tyst dibynadwy sydd naill ai'n cadarnhau neu'n gwrthddweud cyhuddiad, yna dylai'r Pennaeth gymryd hyn i ystyriaeth wrth benderfynu a ddylid gwneud atgyfeiriad. Cofiwch, os oes amheuaeth, dylech wneud atgyfeiriad.

- Mae cyhuddiadau yn erbyn aelod proffesiynol o'r staff yn cael eu trin yn yr un ffordd yn union ag unrhyw gyhuddiad arall. Nid yw'r maes hwn yn hawdd byth nac yn ddymunol

i unrhyw un sydd ynghlwm. Mae'r gweithdrefnau'n bod er mwyn cefnogi staff, cadw plant yn ddiogel ac amddiffyn staff.

- Mae cyhuddiad yn erbyn person proffesiynol fel arfer yn fwy cymhleth ac yn aml yn wahanol eu natur gyda'r posibilrwydd o waharddiad a/neu gamau disgyblu gan yr ysgol mewn ymgynghoriad â'r Awdurdod Lleol. Mewn achosion o'r fath, dylid cael cyngor gan Uned Diogelu Torfaen ac Uwch Swyddog Adnoddau Dynol.

Gwneud Atgyfeiriad

- Yn unol â Chyfarwyddyd Bwrdd Diogelu Gwent, os oes gan **unrhyw** berson wybodaeth, pryderon neu amheuon bod plentyn yn dioddef, wedi dioddef neu'n debygol o fod mewn perygl o niwed, eu cyfrifoldeb nhw yw sicrhau bod y pryderon yn cael eu cyfeirio i MASSH neu'r heddlu sydd â dyletswyddau statudol a phwerau i ymchwilio ac ymyrryd pan fo angen.

- Mae'r Ddeddf Plant 1989 yn diffinio camdriniaeth fel pan fo plentyn yn dioddef, neu'n debygol o ddioddef 'niwed sylweddol'.

- Os ydych chi'n amau bod plentyn yn cael eu cam-drin neu eu hesgeuluso, neu os yw plentyn yn dweud wrthych chi eu bod yn cael eu cam-drin, **cysylltwch â 01633 647249 (neu 0800 328 4432 am argyfyngau y tu allan i oriau swyddfa)** a dywedwch ei fod yn atgyfeiriad Diogelu Plant.
- **Os yw'r plentyn mewn perygl yn syth o niwed, ffoniwch yr heddlu.**
- **Y ddolen i'r ffurflen Ar-lein Dyletswydd i Adrodd, sef y dull ffafredig o atgyfeirio yw** https://services.torfaen.gov.uk/report-a-concern-about-a-child?locale=cy-gb
- Yn unol â Gweithdrefnau Diogelu Cymru, mae'n rhaid i atgyfeiriad gael ei wneud cyn gynted ag y bo problem, amheuaeth neu bryder yn dod i'r amlwg, ac yn sicr o fewn 24 awr.
- Dylai pob atgyfeiriad dros y **ffôn** neu **atgyfeiriadau a wneir yn bersonol** gael eu cadarnhau o fewn 24 awr gan ddefnyddio'r **Ffurflen Ar-lein Dyletswydd i Adrodd neu Atgyfeiriad Amlasiantaeth (MARF) y mae copi ohoni yn Atodiad 6. Dylai atgyfeiriadau gael eu blaenyrru'n electronig i socialcarecalltorfaen@torfaen.gov.uk.**

    - Gall fod nifer o ffurfiau i gamdriniaeth
    - Esgeulustra
    - Cam-drin corfforol
    - Cam-drin rhywiol
    - Cam-drin Emosiynol
    - Mae cam-drin domestig hefyd yn cael effaith andwyol ar les plentyn - ble mae plentyn yn destun **neu'n** dyst i gam-drin domestig, yna dylid gwneud atgyfeiriad diogelu plant.

- Pan fo pryder yn cael ei fynegu, bydd Gofal Cymdeithasol yn gwneud ymholiadau, gan ddechrau trwy ymweld â'r plentyn a'r teulu. Gwneir hyn fel arfer gyda'r heddlu.

- Os oes pryderon y byddai ymweliad â'r cartref teuluol y gosod y plentyn mewn mwy o berygl o niwed, bydd Gofal Cymdeithasol a weithiau'r Heddlu yn holi i gychwyn gyda phobl broffesiynol eraill sydd efallai'n adnabod y plentyn a'u teulu, e.e. yr ysgol, ymwelydd iechyd neu nyrs yr ysgol, Meddyg Teulu, gweithiwr ieuenctid.

- Ni ddylai staff ysgol ymchwilio i gyhuddiadau. Dylai ysgolion gofnodi mewn ffordd ofalus a ffeithiol beth sydd wedi ei ddatgelu neu unrhyw beth y maen nhw wedi ei weld a arweiniodd at wneud atgyfeiriad.

- Pan fo plentyn wedi gwneud datgeliad, dylid cofnodi union eiriau'r plentyn. Ni ddylai unrhyw aelod o'r staff gyfweld â'r plentyn eto - dylid gwneud atgyfeiriad amddiffyn plant. Rhaid i ysgolion ddilyn Gweithdrefnau Diogelu Cymru a dylent fod yn gyfarwydd â nhw. Mae'r ddogfen, ynghyd â dogfennau defnyddiol eraill, hefyd ar gael trwy'r ddolen ganlynol

  https://www.gwentsafeguarding.org.uk/cy/protocols-and-procedures

Polisi Model Diogelu Ysgolion

Mae'r Polisi Model hwn at ddefnydd ysgolion a ddylai bersonoli a defnyddio'r ddogfen gyfan hon fel sail eu polisi diogelu.

Polisi Diogelu Ysgol Gymraeg Gwynllyw

2024 - 2025

Ysgol Gymraeg Gwynllyw
Pennaeth: **Mrs Catherine Evans**(Pennaeth) / **Miss Helen Rogers** (Dirprwy Bennaeth), **Mr Gareth Jones** (Dirprwy Bennaeth)

Personél â chyfrifoldeb dynodedig ar gyfer diogelu plant a phobl ifanc

Blwyddyn Academaidd	Person Diogelu Dynodedig (PDD)	Dirprwy PDD	Llywodraethwr Diogelu Plant (LlDP)	Cadeirydd y Llywodraethwyr (CLl)
2025-2026	**Miss Rhian James / Mr Grant Morris**	**Mrs Rachel Williams**	**Mrs Lesley Bush**	**Mrs Lesley Bush**
2024-2025	Miss Rhian James / Mr Grant Morris	Mrs Rachel Williams	Mrs Lesley Bush	Mrs Lesley Bush
2023-2024	Miss Rhian James / Mr Grant Morris	Mrs Rachel Williams	Mrs Lesley Bush	Mrs Lesley Bush
2022-2023	Miss Rhian James / Mr Grant Morris	Mrs Rachel Williams	Mrs Lesley Bush	Mrs Lesley Bush
2021-2022	Miss Rhian James / Mr Grant Morris	Mrs Rachel Williams	Mrs Kathryn Bevan / Mrs Lesley Bush	Mrs Betsan O'Connor / Mrs Lesley Bush
2020-2021	Mrs Catrin Wyn Leader	Miss Rhian James	Dr Lynne Davies and Mr John Harris	Dr Lynne Davies
2019-2020	Mrs Catrin Wyn Leader	Miss Rhian James	Dr Lynne Davies and Mr John Harris	Dr Lynne Davies

Dyddiadau adolygiad polisi

Dyddiad Adolygu	Newidiadau	Gan Bwy	Dyddiad Rhannu
Medi 2021	Wedi uwcholeuo mewn melyn – gwybodaeth wedi diweddaru gan Awdurdod Torfaen	Rhian James	20.09.21
Medi 2022	Wedi uwcholeuo mewn melyn – gwybodaeth wedi diweddaru gan Awdurdod Torfaen	Rhian James	10.10.22
Medi 2023	Wedi uwcholeuo mewn melyn – gwybodaeth wedi diweddaru gan Awdurdod Torfaen	Rhian James	23.11.23
Medi 2024	Gwybodaeth wedi diweddaru gan Awdurdod Torfaen	Rhian James	19.09.24
Medi 2025	**Gwybodaeth wedi diweddaru gan Awdurdod Torfaen**	**Rhian James**	**15.09.25**

Dyddiadau hyfforddiant staff a manylion teitl y cwrs a darparwr yr hyfforddiant

Ysgol Gyfan	PDD	Dirprwy PDD
Plant yng Nghymru, Medi 3ydd 2021	Plant yng Nghymru, Medi 3ydd 2021	Plant yng Nghymru, Medi 3ydd 2021
	Hyfforddiant diweddaru Hydref 13eg / 14eg 2021 – Wedi trefnu gan Awdurdod Torfaen	Hyfforddiant diweddaru Hydref 13eg / 14eg 2021 – Wedi trefnu gan Awdurdod Torfaen
Medi 2il, Rhian James	20fed a'r 21ain Ionawr, 2022 – Hyfforddiant diweddaru wedi trefnu gan Awdurdod Torfaen	20fed a'r 21ain Ionawr, 2022 – Hyfforddiant diweddaru wedi trefnu gan Awdurdod Torfaen
Medi 1af, Rhian James	23.01.24 Plant yng Nghymru	Hydref 24ain, 2023 – Hyfforddiant diweddaru wedi trefnu gan Awdurdod Torfaen
Medi 2il, 2024 Plant yng Nghymru	23.01.24 Plant yng Nghymru	Hydref 24ain, 2023 – Hyfforddiant diweddaru wedi trefnu gan Awdurdod Torfaen
Medi 1af, 2025 Rhian James	23.01.24 Plant yng Nghymru. Hyfforddiant wedi ei drenu gan Dorfaen ar gyfer 2025-2026	**Hydref 22ain, 2025** – Hyfforddiant diweddaru wedi trefnu gan Awdurdod Torfaen wedi cyflwyno gan 'Plant yng Nghymru'

LIDP			
Plant yng Nghymru, Medi 3ydd 2021			
20fed a'r 21ain Ionawr, 2022 – Hyfforddiant diweddaru wedi trefnu gan Awdurdod Torfaen			
20fed a'r 21ain Ionawr, 2022 – Hyfforddiant diweddaru wedi trefnu gan Awdurdod Torfaen			
Tachwedd 22ain, 2023 - Hyfforddiant diweddaru wedi trefnu gan Awdurdod Torfaen			
Tachwedd 19eg 2025 (Plant yng Nghymru). Hyfforddiant diweddaru wedi trefnu gan Awdurdod Torfaen			

Dyddiadau adolygiad llywodraethwyr o'r polisi

Tymor Hydref 2022
Tymor Hydref 2023
Tymor Hydref 2024
Tymor Hydref 2025

Cyflwyniad

Ymrwymiad yr Ysgol

Darparu Amgylchedd Diogel a Chefnogol:

1. Recriwtio a Dewis Mwy Diogel
2. Arfer Diogel
3. Gwybodaeth Diogelu i Ddisgyblion
4. Partneriaeth gyda Rhieni
5. Partneriaeth gydag Eraill
6. Hyfforddiant Ysgol a Chyflwyno Staff
7. Cefnogaeth, Cyngor a Chyfarwyddyd i Staff
8. Plant Sydd Ar Goll o Addysg
9. Gwybodaeth i Ddisgyblion
10. Rolau a Chyfrifoldebau:
    - Corff Llywodraethol
    - Pennaeth
    - PDD
    - Staff a Gwirfoddolwyr i gyd

Adnabod Plant sy'n dioddef neu sy'n debygol o ddioddef Niwed Sylweddol.

Cymryd Camau i Sicrhau bod Plant yn Ddiogel yn Yr Ysgol a'r Cartref

1. Atal
2. Gweithdrefnau
3. Cefnogi'r Disgybl mewn perygl
4. Plant ag Anghenion Dysgu Ychwanegol
5. Bydd staff yn Dweud yn Syth
6. Ymateb i Ddatgeliad
7. Camau gan y PDD
8. Camau ar ôl Atgyfeiriad Amddiffyn Plant
9. Cofnodi a Monitro
10. Cefnogi'r Plentyn a Phartneriaeth gyda Rhieni

CYFLWYNIAD

Mae’r polisi hwn yn berthnasol i bob oedolyn, gan gynnwys gwirfoddolwyr, sy'n gweithio yn neu ar ran yr ysgol.

Mae pawb sy'n gweithio yn neu ar ran ei gwasanaeth ysgolion yn rhannu'r amcan o helpu i gadw plant a phobl ifanc yn ddiogel trwy gyfrannu at:

- ddarparu amgylchedd diogel i blant a phobl ifanc ddysgu a datblygu yn ein hysgol, a
- adnabod plant a phobl ifanc sy'n dioddef neu sy'n debygol o ddioddef niwed sylweddol a chymryd camau priodol gyda'r nod o sicrhau eu bod yn cael eu cadw'n ddiogel gartref ac yn ein hysgol.

YMRWYMIAD YR YSGOL

Mae Ysgol Gymraeg Gwynllyw yn ymrwymedig at Ddiogelu a Hyrwyddo Lles ei disgyblion i gyd. Mae lles pob disgybl o'r pwys mwyaf. Rydym yn cydnabod y *gall* rhai plant fod yn arbennig o agored i gamdriniaeth. Rydym yn cydnabod y gall plant sy'n cael eu cam-drin neu eu hesgeuluso ei chael yn anodd datblygu teimlad o hunanwerth a gweld y byd mewn ffordd gadarnhaol. Tra byddan nhw yn yr ysgol, gall eu hymddygiad fod yn heriol. Rydym yn cydnabod y gall rhai plant sydd wedi dioddef camdriniaeth efallai niweidio eraill. Byddwn bob amser yn defnyddio dull ystyriol a sensitif er mwyn i ni allu cefnogi'n disgyblion i gyd.

Byddwn yn sicrhau bod ein polisïau i gyd yn cydgysylltu er mwyn hyrwyddo diogelu plant.



DARPARU AMGYLCHEDD DIOGEL A CHEFNOGOL

1 Recriwtio a Dewis Mwy Diogel

Mae'r ysgol hon yn ymrwymedig at ddiogelu a hyrwyddo lles plant a phobl ifanc, ac mae'n disgwyl i staff a gwirfoddolwyr rannu'r ymrwymiad yma

Rydym yn sicrhau bod pob cam priodol yn cael eu cymryd mewn perthynas â phawb sy'n gweithio yn yr ysgol sy'n debygol o gael eu gweld gan y plant fel oedolyn diogel a dibynadwy, gan gynnwys gwirfoddolwyr, llywodraethwyr a staff a gyflogir gan gontractwyr. Mae arferion recriwtio mwy diogel yn cynnwys craffu ar ymgeiswyr, gwirio unigolion a chymwysterau academaidd a galwedigaethol, cael geirda proffesiynol, gwirio hanes cyflogaeth flaenorol ac sicrhau bod ymgeisydd yn ddigon iach yn gorfforol ac yn feddyliol i wneud y swydd. Mae hefyd yn cynnwys cynnal cyfweliadau a, ble mae'n briodol, gwneud gwiriad GDG uwch i wirio yn erbyn y rhestr bobl waharddedig.

Yn unol â newidiadau statudol, gyda rheoliadau'n sail, bydd y canlynol yn berthnasol:

- bod Datgeliad Uwch o'r GDG yn cael ei gael ar gyfer pob penodiad newydd i weithlu ein hysgol (oni bai bod hygludedd yn berthnasol, e.e. athrawon llanw);
- mae'r ysgol hon yn ymrwymedig at gadw gofnod canolog unigol cyfredol gyda manylion amrywiaeth o wiriadau sydd wedi eu gwneud ar ein staff;
- bydd pob penodiad newydd i weithlu ein hysgol sydd wedi byw y tu allan i'r DU yn destun gwiriadau ychwanegol fel sy'n briodol;
- mae ein hysgol yn sicrhau bod staff llanw wedi mynd trwy'r gwiriadau angenrheidiol a byddwn yn rhoi gwybod iddyn nhw am y polisi;
- rhaid gwneud gwiriadau mewn perthynas a phob penodiad i weithlu ein hysgol cyn gwneud penodiad, mewn partneriaeth â'r Awdurdod Lleol.

2. Arfer Diogel

Bydd ein hysgol yn dilyn y polisi a gweithdrefnau Diogelu Plant a Phobl Ifanc mewn Lleoliadau Addysgol ynghyd â chyfarwyddyd gan Fwrdd Diogelu Gwent.

https://www.gwentsafeguarding.org.uk/cy/protocols-and-procedures

Mae arfer gweithio diogel yn sicrhau bod disgyblion yn ddiogel a bod y staff i gyd:

- yn gyfrifol am eu gweithrediadau a'u hymddygiad eu hunain a dylent osgoi unrhyw ymddygiad a fyddai'n arwain unrhyw berson rhesymol i amau eu hysgogiad â'u bwriad;

- yn gweithio mewn ffordd agored a thryloyw;

- yn gweithio gyda chydweithwyr ble mae hynny'n bosibl mewn sefyllfaoedd sy'n agored i amheuaeth;

- yn trafod a/neu'n cymryd cyngor gan reolwyr ysgol ynglŷn ag unrhyw ddigwyddiad a allai beri pryder;

- yn cofnodi unrhyw ddigwyddiadau neu benderfyniadau a wnaed;
- yn gweithredu'r un safonau proffesiynol ta waeth am rywedd neu rywioldeb;

- yn ymwybodol o'r polisi cyfrinachedd;

- yn ymwybodol y gallai torri'r gyfraith a chanllawiau proffesiynol eraill arwain at gamau troseddol a/neu ddisgyblaethol yn eu herbyn.

3 Gwybodaeth Diogelu i ddisgyblion

Mae'r disgyblion i gyd yn ein hysgol yn ymwybodol o nifer o aelodau staff y gallan nhw siarad â nhw. Mae ein hysgol yn ymrwymedig at sicrhau fod disgyblion yn ymwybodol o ymddygiad tuag atyn nhw nad yw'r dderbyniol a sut a gallan nhw gadw eu hunain yn ddiogel. Mae'r disgyblion i gyd yn gwybod bod gennym uwch aelod o'r staff sy'n gyfrifol am ddiogelu plant ac yn gwybod pwy yw ef/hi. Rydym yn rhoi gwybod i ddisgyblion pwy allan nhw siarad â nhw, yn yr ysgol a thu allan, eu hawl i gael rhywun i wrando, a pha gamau gellir eu cymryd i'w gwarchod rhag niwed.

Bydd ein hysgol yn sicrhau bod disgyblion yn ymwybodol fod gwybodaeth ar gael trwy'r canlynol *e.e. llinellau cymorth, posteri, Gwersi Meddwlgarwch a Lles, NSPCC a chyfeiriadau gwefan Childline a Barod* a Swyddogion yr Heddlu sy'n ymwneud ag ysgolion. Trefniadau'r ysgol ar gyfer ymgynghori â a gwrando ar ddisgyblion yw *hunan gyfeirio i weld y cwnselydd ysgol neu nyrs yr ysgol. Rydym yn gwneud disgyblion yn ymwybodol o'r trefniadau hyn trwy gyfnodau dosbarth (llais y disgybl), gwasanaethau, cyngor ysgol, gwersi Meddwlgarwch a Lles, pamffledi neu taflenni gwybodaeth, prosbectws yr ysgol a phosteri.*

Rydym yn gwneud pobl yn ymwybodol o'r trefniadau yma yn ystod mis Medi.

4 Partneriaeth gyda Rhieni

Mae'r ysgol yn rhannau nod gyda rhieni i addysgu plant a'u cadw'n ddiogel rhag niwed a hyrwyddo'u lles. Rhennir gwybodaeth gyda rhieni trwy gydol y flwyddyn, yn enwedig mewn nosweithiau rhieni ac esbonir iddynt sut i gadw plant yn ddiogel a sut gallen nhw adrodd am bryderon os ydynt yn poeni am blentyn sydd mewn perygl o niwed e.e gan eu gwneud yn ymwybodol o wybodaeth ar gyfer rhieni yn www.nspcc.org.uk; www.ceop.gov.uk *www.nspcc.org.uk*

Rydym wedi ymrwymo i weithio gyda rhieni mewn modd cadarnhaol, agored a gonest. Rydym yn sicrhau bod pob rhiant yn cael eu trin â pharch, urddas a chwrteisi. Rydym yn parchu hawliau rhieni i breifatrwydd a chyfrinachedd ac ni fyddwn yn rhannu gwybodaeth sensitif oni bai fod gennym ganiatâd neu os yw'n angenrheidiol gwneud hynny er mwyn diogelu plentyn.

Bydd yr ysgol yn rhannu gyda rhieni unrhyw bryderon gallai fod gennym ynglŷn â'u plentyn oni bai y byddai gwneud hynny'n peryglu'r plentyn.

Rydym yn annog rhieni i drafod unrhyw bryderon sydd ganddyn nhw gyda gyda'r *tim diogelu yn yr ysgol - **Miss Rhian James, Mr Grant Morris and Mrs Rachel Williams.***

Gwneir rhieni yn ymwybodol o'n polisi diogelu wrth gyfeirio nhw i wefan yr ysgol ac i

edrych ar brosbectws yr ysgol a gwneir rhieni yn ymwybodol y gellir gweld y polisi hwn ar gais.

Sampl o Ad-ddalen ar gyfer Llyfryn yr Ysgol

Mae Ysgol Gymraeg Gwynllyw yn ymrwymedig at sicrhau lles a diogelwch pob plentyn yn yr ysgol. Mae holl ysgolion Torfaen, gan gynnwys Ysgol Gymraeg Gwynllyw yn dilyn gweithdrefnau Bwrdd Diogelu Gwent. Bydd yr ysgol, yn y rhan fwyaf o amgylchiadau, yn ymdrechu i drafod pob pryder gyda rhieni ynglŷn â'u plant. Serch hynny, efallai bydd amgylchiadau eithriadol pan fydd yr ysgol yr trafod pryderon gyda Gofal Cymdeithasol a/neu'r Heddlu heb yn wybod i rieni (yn unol â gweithdrefnau Amddiffyn Plant). Bydd yr ysgol, wrth gwrs, bob amser yn ceisio cynnal perthynas gadarnhaol gyda rhieni. Mae polisi amddiffyn plant yr ysgol ar gael ar gais.

5 Partneriaethau gydag Eraill

Mae ein hysgol yn cydnabod ei fod yn hanfodol sefydlu perthnasau gwaith cadarnhaol ac effeithiol gydag asiantaethau eraill sy'n bartneriaid ym Mwrdd Diogelu Gwent. Yr Awdurdod lleol, *Gofal Cymdeithasol, Barnardo's, Yr Heddlu, Iechyd, Childline mewn Partneriaeth ag Ysgolion, NSPCC, Gwasanaeth Eiriolaeth Ieuenctid Cenedlaethol, Teuluoedd yn Gyntaf a Wellbeing Space.* Mae yna gydgyfrifoldeb gan yr asiantaethau yma i gyd i rannu gwybodaeth i sicrhau diogelu pob plentyn.

6 Hyfforddiant Ysgol a Chyflwyno Staff a Llywodraethwyr

Mae'r uwch aelod y staff sydd â chyfrifoldeb dynodedig am amddiffyn plant (PDD) a'u dirprwy yn derbyn hyfforddiant ar ddiogelu i'w cefnogi i gyflawni eu rôl, a chaiff hyn y ei adnewyddu pob dwy flynedd. Hefyd, ymgymerir â gweithio rhwng asiantaethau er mwyn sicrhau datblygiad proffesiynol, a bod sgiliau a gwybodaeth mewn amddiffyn plant bob amser yn gyfredol.

Bydd y Pennaeth a phob aelod arall o staff yr ysgol, gan gynnwys staff nad ydynt yn addysgu, yn cwblhau hyfforddiant cyflwyno priodol i'w galluogi i gyflawni eu cyfrifoldebau amddiffyn plant yn effeithiol. Caiff yr hyfforddiant yma ei ailadrodd yn ffurfiol pob 3 blynedd ac mae'n cael ei adnewyddu pob blwyddyn o leiaf.

Mae'r LlDP a CLl yn derbyn hyfforddiant i'w cefnogi i gyflawni eu rolau, ac mae hyn yn cael ei adnewyddu pob dwy flynedd. Mae pob llywodraethwr arall hefyd yn derbyn hyfforddiant diogelu priodol.

Mae'r modiwlau Cadw Dysgwyr yn Ddiogel sydd ar gael ar Hwb yn cefnogi'r staff, y gwirfoddolwyr a'r llywodraethwyr i gyd i ddeall eu cyfrifoldebau diogelu fel y'u nodir yn y Cyfarwyddyd Cadw Dysgwyr yn Ddiogel.

Mae'r staff, y llywodraethwyr a'r gwirfoddolwyr i gyd yn cael polisi amddiffyn plant yr ysgol ac yn cael eu hysbysu am drefniadau diogelu plant yr ysgol pan fyddant yn cychwyn yn eu rolau.

7 Cefnogaeth, Cyngor a Chyfarwyddyd i Staff

Caiff staff eu cefnogi gan *Swyddogion Diogelu yr ysgol, ALl a chymdeithasau proffesiynol. yr ysgol, yr ALl a chymdeithasau proffesiynol.*
Caiff y person diogelu dynodedig dros Ddiogelu/Amddiffyn Plant (PDD) eu cefnogi gan **Mrs Catherine Evans (Pennaeth), Miss Helen Rogers (Dirprwy Bennaeth), Mr Gareth Jones (Dirprwy Bennaeth), Mrs Lesley Bush (Llywodraethwr Dynodedig) a'r Awdurdod Lleol.**

8 Plant Sydd Ar Goll o Addysg

Pan fod plentyn ar gofrestr ysgol yn ymddangos fel petai wedi mynd ar goll neu wedi eu tynnu allan o ysgol a gynhelir yng Nghymru heb rybudd gan y rhiant/gofalwr neu heb fod yr ysgol yn cael gwybod am fanylion yr ysgol newydd, dylai'r ysgol geisio cysylltu â'r rhieni/gofalwyr. Dylid cymryd gofal i gofnodi'r holl gamau a gymerwyd i ddarganfod y plentyn fel gwybodaeth sy'n hysbys, a dderbyniwyd, dyddiadau, amserau a phobl siaradwyd â nhw ynghyd â'r penderfyniadau a chamau a gymerwyd. Os bydd yr ymdrechion yma'n methu, dylai'r ysgol hysbysu'r Gwasanaeth Lles Addysg yn ddi-oed, a byddan nhw wedyn yn gweithio gyda'r ysgol ac yn gwneud pob ymdrech i geisio nodi lleoliad presennol/cyrchfan y person ifanc. Os yw plentyn neu berson ifanc wedi gadael yr ysgol heb gyrchfan ac mae'r ysgol a'r Gwasanaeth Lles Addysg ill dau wedi dilyn y gweithdrefnau ac mae pob 'ymdrech rhesymol' i'w darganfod wedi bod yn aflwyddiannus, yna, ar ôl lleiafswm o 4 wythnos, dylai'r ysgol, mewn ymgynghoriad â'r Awdurdod Lleol, ddileu enw'r plentyn neu berson ifanc o'i chofrestr a chreu ffeil trosglwyddo cyffredin (FfTC) 'disgybl coll' gyda XXXXXXX fel y cyrchfan. Dylai'r FfTC gael ei lanlwytho i safle diogel s2s ble bydd yn cael ei gadw yn yr adran 'disgybl coll'.

9 Cyfrinachedd

Mae'r ysgol wedi mabwysiadu Polisi Diogelu Data'r ALl ac mae ganddi God Ymddygiad sy'n disgrifio'r disgwyliadau o'n staff.
"Lle mae pryder y gall y plentyn fod yn dioddef neu mewn perygl o ddioddef niwed sylweddol, rhaid i ddiogelwch a lles y plentyn fod y brif ystyriaeth."

Tra bod pryder y gall plentyn fod yn dioddef neu ei fod mewn perygl o ddioddef niwed sylweddol, rhaid i ddiogelwch a lles y plentyn fod yr ystyriaeth flaenaf.

Mae cyfrinachedd yn bwysig wrth gynnal hyder a chyfranogiad mewn gwasanaethau ac felly helpu i amddiffyn iechyd a lles plant. Serch hynny, nid yw dyletswydd cyfrinachedd yn absoliwt ac mae modd ei thorri pan fo hyn er budd y plentyn ac er budd cyhoeddus ehangach.

10 Gwybodaeth i Ddisgyblion

Bydd ein hysgol yn ymdrechu i gadw gwybodaeth gyfredol a chywir. Er mwyn cadw plant yn ddiogel a rhoi gofal priodol iddyn nhw mae angen gwybodaeth gywir a chyfredol ar yr ysgol mewn perthynas â:

- enwau a manylion cyswllt pobl y mae'r plentyn yn byw â nhw fel arfer;

- enwau a manylion cyswllt pob person â chyfrifoldeb rhiant (os yw'n wahanol i'r uchod);

- manylion cyswllt mewn argyfwng (os yw'n wahanol i'r uchod);

- manylion unrhyw berson sydd ag awdurdod i gasglu'r plentyn o'r ysgol (os yw'n wahanol i'r uchod);

- unrhyw orchmynion llys sydd mewn grym, gan gynnwys y rheiny sy'n effeithio ar fynediad unrhyw berson at y plentyn (e.e. Gorchymyn Preswylio, Gorchymyn Cyswllt, Gorchymyn Gofal, Gwaharddebau etc.);
- os yw'r plentyn ar wedi wedi bod ar y Gofrestr Amddiffyn Plant neu'n destun cynllun gofal:

    - enw a manylion cyswllt Meddyg Teulu

    - unrhyw ffactorau eraill a allai gael effaith ar ddiogelwch a lles y plentyn

    - Bydd yr ysgol yn casglu, yn storio ac yn cytuno ar fynediad i'r wybodaeth hon

11 Rolau a Chyfrifoldebau

Bydd ein Corff Llywodraethol yn sicrhau:

- bod gan yr ysgol bolisi a gweithdrefnau amddiffyn plant sy'n cyd-fynd â chyfarwyddyd yr Awdurdod Lleol a gweithdrefnau a gytunwyd yn lleol rhwng asiantaethau, ac mae'r polisi ar gael i rieni ar gais;

- bod yr ysgol yn gweithredu gweithdrefnau recriwtio diogel a'i bod yn gwneud yn siŵr fod pob gwiriad priodol yn cael eu gwneud mewn perthynas â staff a gwirfoddolwyr sy'n gweithio gyda phlant;

- bod gan yr ysgol weithdrefnau ar gyfer ymdrin â chyhuddiadau o gamdriniaeth yn erbyn staff a gwirfoddolwyr sy'n cydymffurfio â chyfarwyddyd gan yr Awdurdod Lleol a gweithdrefnau a gytunwyd yn lleol rhwng asiantaethau;

- bod uwch aelod o dim arweinyddiaeth yr ysgol wedi cael eu dynodi yn un i arwain cyfrifoldeb am amddiffyn plant (a dirprwy);

- yr enwebir llywodraethwr arweiniol i sicrhau bod diogelu'n derbyn sylw digonol - y Llywodraethwr Diogelu Plant (LlDP)

- bod staff yn ymgymryd â hyfforddiant priodol diogelu plant;

- eu bod yn cywiro, heb oedi unrhyw ddiffygion neu wendidau mewn perthynas â threfniadau diogelu;

- bod llywodraethwr yn cael ei (h)enwebu (fel arfer Cadeirydd y Llywodraethwyr) i fod yn gyfrifol am gysylltu gyda'r ALl a /neu asiantaethau partner os bydd cyhuddiadau o gamdriniaeth yn erbyn y Pennaeth

- ble mae gwasanaethau neu weithgareddau'n cael eu darparu ar diroedd yr ysgol gan gorff arall, bod gan y corff dan sylw bolisïau a gweithdrefnau priodol mewn

perthynas â diogelu plant ac amddiffyn plant a'i fod yn cysylltu â'r ysgol yn y materion yma ble mae hynny'n briodol.

- eu bod yn adolygu eu polisïau a'u gweithdrefnau'n flynyddol ac yn rhoi gwybodaeth i'r Awdurdod Lleol amdanyn nhw ac ynglŷn â sut mae'r dyletswyddau uchod wedi eu cyflawni.

Bydd ein Pennaeth yn sicrhau:

- bod y polisïau a'r gweithdrefnau a fabwysiadwyd gan y Corff Llywodraethol wedi eu gweithredu'n llawn, ac yn cael eu dilyn gan y staff i gyd;

- bod digon o adnoddau ac amser yn cael eu rhoi i alluogi'r person dynodedig a staff eraill i gyflawni eu cyfrifoldebau; a

- bod y staff a gwirfoddolwyr i gyd yn teimlo eu bod yn gallu mynegi pryderon am arferion gwael neu anniogel mewn perthynas â phlant, ac mae pryderon o'r fath yn cael eu trin mewn ffordd sensitif ac effeithiol mewn da bryd yn unol â pholisiau chwythu'r chwiban a gytunwyd

Bydd Uwch Aelod o Staff gyda Chyfrifoldeb Dynodedig am Amddiffyn Plant (Person Diogelu Dynodedig PDD) yn:

- cymryd cyfrifoldeb am arfer, polisïau a gweithdrefnau Amddiffyn Plant a datblygiad proffesiynol, gan weithio gydag asiantaethau eraill fel y bo angen

- cyfeirio achosion o amheuaeth o gamdriniaeth neu gyhuddiadau i'r asiantaethau ymchwilio priodol perthnasol cyn gynted ag y bydd problem, amheuaeth neu bryder am blentyn yn dod i'r amlwg ac yn sicr o fewn 24 awr

- sicrhau bod atgyfeiriadau sy'n cael eu gwneud dros y ffôn neu'n bersonol yn cael eu cadarnhau o fewn 24 awr gan ddefnyddio'r Ffurflen Dyletswydd i Adrodd - Atgyfeiriad Amlasiantaeth (DTR / MARF)

- gweithredu fel ffynhonnell cefnogaeth, cyngor ac arbenigedd oddi mewn i'r sefydliad addysgol;

- cysylltu gyda'r Pennaeth i ddweud wrtho/i am unrhyw faterion ac ymchwiliadau sy'n mynd rhagddynt a sicrhau bod rhywun yn y rôl yma o hyd.

- gwybod sut i adnabod arwyddion o gamdriniaeth a, phan fo hynny'n briodol, gwneud atgyfeiriad;

- meddu ar wybodaeth ymarferol o Fwrdd Diogelu Gwent, sut mae cynnal cynhadledd achos amddiffyn plant a'r gallu i fynychu a chyfrannu at y rhain;

- sicrhau bod pob aelod o staff â mynediad at ac yn deall polisi amddiffyn plant yr ysgol

- Cefnogi'r Pennaeth a'r Corff Llywodraethol i sicrhau bod gan yr ysgol weithdrefnau recriwtio a chadw gwydn.

- sicrhau bod pob aelod o staff yn hyfforddiant cyflwyno;

- cadw cofnodion ysgrifenedig, diogel, cywir a manwl a/neu bryderon
- cael mynediad at adnoddau, yn mynychu unrhyw gyrsiau hyfforddiant neu adnewyddu perthnasol o leiaf pob dwy flynedd a sicrhau bod y dysgu o'r hyfforddiant yn cael ei ddosbarthu i'r staff i gyd yn yr ysgol fel bo'r angen.
- sicrhau bod y polisi amddiffyn plant yn cael ei ddiweddaru a'i adolygu pob blwyddyn a gweithio gyda'r Corff Llywodraethol ynglŷn â hyn;
- sicrhau bod rhieni'n cael eu gwneud yn ymwybodol am y polisi diogelu / amddiffyn plant sy'n eu rhybuddio o'r ffaith fod modd gwneud atgyfeiriadau a rôl y sefydliad yn hyn o beth i osgoi gwrthdaro yn nes ymlaen;
- pan fo plentyn yn gadael yr ysgol/lleoliad, yn sicrhau bod y ffeil amddiffyn plant yn cael ei chopïo i'r ysgol/lleoliad newydd cyn gynted â phosibl a'i throsglwyddo i'r ysgol newydd ar wahân i brif ffeil y disgybl yn unol â Pholisi Cadw Ysgolion yr ALl. Os yw plentyn yn mynd ar goll neu'n gadael i gael eu haddysgu gartref, yna dylai'r ffeil diogelu plant gael ei chopïo a dylai'r copi gael ei ddanfon at y Gwasanaeth Cynhwysiant Addysg.

Bydd staff a gwirfoddolwyr i gyd yn:

- cydymffurfio'n llawn â pholisïau a gweithdrefnau'r ysgol
- mynychu hyfforddiant priodol
- rhoi gwybod i'r person dynodedig am unrhyw bryderon

Ni Ddylai Staff a Gwirfoddolwyr Fyth:

- Gymryd rhan mewn gemau rhywiol bryfoclyd neu gorfforol arw, gan gynnwys chwarae gwirion.
- Ganiatáu i blant ddefnyddio iaith amhriodol her gael eu herio.
- Gwneud sylwadau rhywiol awgrymog o flaen, am neu i blentyn, hyd yn oed fel "hwyl".
- Gadael i gyhuddiadau gan blentyn fynd heibio heb gael eu trin a'u cofnodi
- Atal plant rhag gwneud cyhuddiadau trwy ofn o beidio â chael eu credu.
- Gwneud pethau o natur bersonol ar ran plentyn y gallai'r plentyn wneud drostyn nhw eu hunain.
- Rhannu ystafell wely gyda phlentyn neu berson ifanc.

- Gwahodd neu adael i blentyn neu berson ifanc aros gyda nhw yn eu cartref heb oruchwyliaeth.
- Neidio i gasgliadau am eraill heb wirio'r ffeithiau.
- Dibynnu ar eu henw da eu hunain i'w hamddiffyn.

ADNABOD PLANT A PHOBL IFANC A ALLAI FOD YN DIODDEF NIWED SYLWEDDOL

Mae athrawon ac oedolion eraill mewn ysgol mewn sefyllfa dda i sylwi ar unrhyw arwyddion corfforol, emosiynol neu ymddygiadol sy'n dangos y gallai plentyn fod yn dioddef niwed sylweddol. Gall y perthnasau rhwng staff, disgyblion, rhieni a'r cyhoedd sy'n meithrin parch, hyder ac ymddiriedaeth arwain at ddatgelu camdriniaeth, a/neu fod staff ysgol yn cael eu rhybuddio am bryderon.

Diffiniadau

Fel yn y Deddfau Plant 1989 a 2004, ystyr **plentyn** yw unrhyw un nad yw wedi cyrraedd eu pen blwydd yn 18 oed.

Ystyr **niwed** yw gamdriniaeth neu atal iechyd a datblygiad, gan gynnwys, er enghraifft, nam a ddioddefwyd o weld neu glywed camdriniaeth o rywun arall; Ystyr **datblygiad** yw datblygiad corfforol, deallusol, emosiynol, cymdeithasol neu ymddygiadol Mae **iechyd** yn cynnwys iechyd corfforol a meddyliol; Mae **camdriniaeth** yn cynnwys camdriniaeth rhywiol a ffurfiau eraill o gamdriniaeth nad ydynt yn gorfforol.

Mae **Camdriniaeth ac Esgeulustra'n** fathau o gamdriniaeth. Gall rhywun gam-drin neu esgeuluso plentyn trwy achosi niwed neu drwy fethu â gweithredu i atal niwed. Gall plant gael eu cam-drin mewn sefyllfa deuluol neu mewn lleoliad sefydliadol neu gymunedol; gan y rheiny y maen nhw'n eu hadnabod, neu, yn fwy anaml, gan eraill (e.e. trwy'r rhyngrwyd). Gallan nhw gael eu cam-drin gan oedolyn neu oedolion neu blentyn neu blant eraill.

Gall **Camdriniaeth Gorfforol** olygu taro, siglo, taflu, gwenwynon, llosgi neu sgaldio, boddi, mygu neu achosi niwed corfforol mewn ffordd arall i blentyn Gall niwed corfforol gael ei achosi hefyd pan fo rhiant neu ofalwr yn esgus symptomau, neu'n fwriadol achosi, salwch plentyn.

Mae **Camdriniaeth Rywiol** yn cynnwys gorfodi neu ddenu plentyn neu berson ifanc i gymryd rhan mewn gweithgareddau rhywiol, nid o reidrwydd gyda lefel uchel o drais, p'un ai yw'r plentyn yn ymwybodol ai peidio o'r hyn sy'n digwydd. Gall y gynnwys cysywllt corfforol, gan gynnwys gweithrediadau treiddiol (e.e. treisio neu ryw geneuol) neu rai nad ydynt yn dreiddiol. Gallant gynnwys gweithgareddau heb gysylltiad, fel cynnwys plant wrth edrych ar, neu wrth gynhyrchu, delweddau rhywiol, gwylio gweithgareddau rhywiol, annog plant i ymddwyn mewn ffyrdd sy'n amhriodol yn rywiol neu baratoi plentyn ar gyfer camdriniaeth (gan gynnwys dros y rhyngrwyd). Nid yw camdriniaeth rhywiol yn cael ei chyflawni gan ddynion yn unig. Gall menywod gyflawni camdriniaeth rhywiol hefyd, felly hefyd plant eraill.

Cam-drin Emosiynol yw camdriniaeth emosiynol barhaus plentyn mewn modd sy'n achosi effeithiau niweidiol difrifol a pharhaus ar ddatblygiad emosiynol y plentyn. Gall gynnwys cyfleu i blant eu bod yn ddiwerth neu heb gariad atynt, yn annigonol, neu bod gwerth arnyn nhw dim ond cyhyd â'u bod yn bodloni anghenion person arall. Gall gynnwys peidio â rhoi cyfle i'r plentyn fynegi eu barn, eu distewi'n fwriadol neu 'wawdio' yr hyn y maen nhw'n gwneud neu sut y maen nhw'n cyfathrebu. Gall olygu'r gosod disgwyliadau amhriodol o ran oedran neu

ddatblygiad ar blant. Gall y rhain gynnwys ymadweithiau sydd y tu hwnt i gallu datblygiadol y plentyn, yn ogystal â goramddiffyn a chyfyngu ar ymchwilio a dysgu, neu atal y plentyn rhag cymryd rhan mewn rhyngweithio cymdeithasol arferol. Gall gynnwys gweld neu glywed camdriniaeth o rywun arall. Gall gynnwys bwlio difrifol (gan gynnwys bwlio seibr), gan achosi i blant deimlo ofn neu eu bod mewn perygl, neu ecsbloetio neu lygru plant. Mae rhyw lefel o gamdriniaeth emosiynol ynghlwm wrth bob math o gam-drin plentyn, er y gall ddigwydd ar ei phen ei hun.

Esgeulustra yw'r methiant parhaus i fodloni anghenion corfforol a/neu seicolegol sylfaenol plentyn, sy'n debygol o arwain at amhariad difrifol ar iechyd neu ddatblygiad y plentyn. Gall esgeuluso ddigwydd yn ystod beichiogrwydd o ganlyniad i gamdriniaeth sylweddau gan y fam. Unwaith y mae plentyn wedi ei eni, gall esgeulustra gynnwys bod rhiant neu ofalwr yn methu â darparu bwyd a dillad digonol, llety (gan gynnwys gwahardd o gartref neu gefnu ar y plentyn), amddiffyn plentyn rhag niwed corfforol ac emosiynol neu berygl, sicrhau goruchwyliaeth ddigonol (gan gynnwys y defnydd o ofalwyr annigonol), neu sicrhau gofal neu driniaeth feddygol briodol. Gall hefyd gynnwys esgeuluso, neu beidio ag ymateb i, anghenion emosiynol sylfaenol plentyn.

Mae **Camfanteisio Rhywiol ar Blant** yn ffurf o gamdriniaeth rhywiol plant. Mae'n digwydd pan fo unigolyn neu grwp yn cymryd mantais o anghydbwysedd mewn pŵer i gymell, llywio neu dwyllo plentyn neu berson ifanc o dan 18 oed i gymryd rhan mewn gweithgaredd rywiol, (a) yn gyfnewid am rhywbeth mae'r dioddefwr ei eisiau a/neu (b) er mantais ariannol neu gynnydd yn statws y sawl sy'n cyflawni neu'n hwyluso. Gall y dioddefwr fod wedi eu camfantesio'n rywiol arnynt hyd yn oed os yw'r gweithgaredd rywiol yn ymddangos yn gydsyniol. Nid yw camfanteiso rhywiol plant bob amser yn cynnwys cysywllt corfforol, gall ddigwydd hefyd trwy'r defnydd o dechnoleg.

Mae **Camfanteisio Troseddol ar Blant** yn gyffredin mewn llinellau sirol ac mae'n digwydd pan fo unigolyn neu grwp yn cymryd mantais o anghydbwysedd mewn pŵer i gymell, llywio neu dwyllo plentyn neu berson ifanc o dan 18 oed. Gall y dioddefwr fod wedi eu camfanteisio arnynt yn droseddol hyd yn oed os yw'r gweithgaredd yn ymddangos yn gydsyniol. Nid yw Camfanteisio'n Droseddol ar Blant bob amser yn cynnwys cysywllt corfforol, gall ddigwydd hefyd trwy'r defnydd o dechnoleg.

Mae Llywodraeth y DU yn diffinio llinellau sirol fel y term a ddefnyddir i ddisgrifio gangiau a rhwydweithiau troseddu trefnedig sydd yn ymwneud ag allforio cyffuriau anghyfreithlon i un neu fwy o ardaloedd mewnforio yn y DU, gan ddefnyddio llinellau ffôn symudol neu rhyw fath arall o 'linell fargen'. Maen nhw'n debygol o gamfanteisio ar blant ac oedolion bregus i symud a storio cyffuriau neu arian a byddan nhw'n aml yn defnyddio gorfodaeth, bygythion, trais (gan gynnwys trais rhywiol) ac arfau.

Camdriniaeth Ar-lein – Camdriniaeth ar-lein yw camdriniaeth a hwylusir gan ddefnyddio technoleg. Gall ddigwydd trwy'r cyfryngau cymdeithasol, gemau ar-lein, neu sianelau cyfathrebu digidol eraill. Gall plant ddioddef eilwaith os yw tystiolaeth o'u camdriniaeth yn cael ei gofnodi neu ei lanlwytho ar-lein. Gall technoleg hwyluso nifer o ymddygiadau camdriniol anghyfreithlon gan gynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i: aflonyddu; stelcio; ymddygiad bygythiol; rhannu delweddau anweddus o blant o dan 18 oed; annog plentyn i gymryd rhan mewn gweithgaredd rywiol; camfanteisio rhywiol; paratoi; cyfathrebu rhywiol gyda phlentyn; a, peri i blentyn edrych ar ddelweddau neu wylio fidoes o weithgaredd rywiol. Mae defnyddio technoleg i hwyluso unrhyw un o'r gweithgareddau uchod gyfystyr â chamdriniaeth ar-lein. Ochr yn ochr â'r gweithgareddau anghyfreithlon sy'n cael eu cyflawni ar-lein, gall plant hefyd fod yn agored i ymddygiadau neu gynnwys amhriodol ar-lein. Er enghraifft, gall plant gael eu bwlio ar-lein gan eu cyfoedion neu efallai y byddan nhw, naill ai'n ddamweiniol neu'n fwriadol,

yn gweld cynnwys a fwriedir i oedolion, fel pornograffi. Gall camdriniaeth ar-lein neu weld cynnwys neu ymddygiad anaddas gael effaith hirhoedlog ar les plant a phobl ifanc.

CYMRYD CAMAU I SICRHAU BOD PLANT YN DDIOGEL YN YR YSGOL A GARTREF

Mae'r staff i gyd yn dilyn Gweithdrefnau Amddiffyn Plant Bwrdd Diogelu Gwent, sy'n gyson â 'Gweithio Gyda'n Gilydd i Ddiogelu Plant' a Gweithdrefnau Diogelu Cymru.

Nid cyfrifoldeb staff yr ysgol yw ymchwilio i bryderon lles neu benderfynu ar wirionedd unrhyw ddatgeliad neu gyhuddiad. Mae gan bob aelod o staff, serch hynny, ddyletswydd i gydnabod pryderon a chadw meddwl agored. Felly, bydd pob pryder am les disgyblion yn cael eu cofnodi a'u trafod gyda'r person diogelu dynodedig sydd â chyfrifoldeb am amddiffyn plant (neu uwch aelod arall o'r staff yn absenoldeb y person dynodedig) cyn trafodaeth â rhieni.

Mae ein hysgol yn cydnabod yn llwyr ei chyfraniad i amddiffyn plant a bydd y gweithdrefnau canlynol yn cael eu dilyn mewn perthynas â phryderon o natur amddiffyn plant yn yr ysgol hon:

Mae yna dair prif elfen yn ein polisi a'n gweithdrefnau amddiffyn plant:

- Atal trwy'r diwylliant, yr addysgu a'r gefnogaeth fugeiliol a gynigir i ddisgyblion
- Gweithdrefnau ar gyfer adnabod ac adrodd am achosion, neu achosion a amheuir o gamdriniaeth. Oherwydd ein cysylltiad dydd i ddydd gyda phlant, mae staff yr ysgol mewn sefyllfa dda i sylwi ar arwyddion allanol camdriniaeth
- Cefnogaeth i ddisgyblion sydd wedi cael ei cam-drin.

Mae ein polisi a'n gweithdrefnau'n berthnasol i bob aelod o staff a gwirfoddolwyr sy'n gweithio yn yr ysgol, a'r llywodraethwyr. Gall cynorthwywyr dysgu, goruchwylwyr canol y dydd, gofalwyr ac ysgrifenyddion, yn ogystal ag athrawon fod yn bwynt cyntaf ar gyfer datgeliad gan blentyn.

Atal

Rydym yn cydnabod fod hunan-barch, hyder, ffrindiau cefnogol a llinellau da o gyfathrebu gydag oedolion y gellir ymddiried ynddyn nhw yn helpu i ddiogelu disgyblion. Bydd yr ysgol felly yn:

- Sefydlu a chynnal ethos ble mae plant yn teimlo'n ddiogel ac yn cael eu hannog i siarad, a bod gwrando arnynt.
- Sicrhau bod plant yn gwybod fod yna oedolion yn yr ysgol y mae modd mynd atynt os ydyn nhw'n bryderus neu mewn anhawster.
- Cynnwys yn y cwricwlwm gweithgareddau a chyfleoedd ar gyfer addysg perthnasau a rhywioldeb a fydd yn rhoi i blant y sgiliau y mae eu hangen i gadw'n ddiogel rhag camdriniaeth, ac i bwy dylen nhw fynd am gymorth
- Cynnwys yn y cwricwlwm deunydd a fydd yn helpu plant i ddatblygu agweddau realistig tuag at gyfrifoldebau bywyd fel oedolyn, yn enwedig mewn perthynas â gofal plant a sgiliau rhianta
- datblygu perthnasau gydag asiantaethau eraill a sicrhau atgyfeiriadau priodol am gefnogaeth ac ymyrraeth cyn bod risgiau'n gwaethygu.
- cymryd agwedd ysgol gyfan (lleoliad) tuag at les a fydd yn cynnwys diogelu a chamau ataliol i gefnogi plant a theuluoedd.

Gweithdrefnau

Byddwn yn dilyn Gweithdrefnau Diogelu Cymru sydd wedi eu cymeradwyo gan Fwrdd Diogelu Gwent ac yn ôl Cyfarwyddyd LlC Cadw Dysgwyr yn Ddiogel, bydd yr ysgol yn sicrhau:

- Mae ganddi lywodraethwr dynodedig, y Llywodraethwr Diogelu Plant (LlDP) a fydd yn goruchwylio polisi diogelu'r ysgol ac yn rhoi cyswllt cefnogol i'r PDD
- mae ganddi berson diogelu dynodedig (PDD) sydd wedi gwneud hyfforddiant priodol
- mae'n cydnabod rôl y PDD ac yn trefnu cefnogaeth ar gyfer hyfforddiant

- Mae pob aelod o'r staff a phob llywodraethwr yn gwybod:

    - enw'r PDD a'u rôl, y pwynt cyswllt yn yr awdurdod lleol a'r llywodraethwr dynodedig ar gyfer diogelu
    - bod ganddynt gyfrifoldeb unigol ar gyfer adrodd am blant sydd mewn perygl ac am bryderon amddiffyn i MASSH, neu wrth yr heddlu, o fewn yr amserlenni a gytunwyd gyda'r Bwrdd Diogelu Rhanbarthol

    - Sut i ddwyn pryderon ymlaen pan nad yw'r PDD ar gael

- Sicrhau bod aelodau staff yn ymwybodol o'r angen i fod yn effro i gamdriniaeth neu esgeulustra a'u bod yn gwybod sut i ymateb i ddisgybl a all ddatgelu camdriniaeth neu esgeulustra

- Sicrhau fod aelodau o staff sydd wedi eu cofrestru â CGA yn ymwybodol o'r *Cod Ymddygiad ac Arfer Proffesiynol ar gyfer Cofrestreion* www.ewc.wales/site/index.php/en/fitness-to-practise/code-of-professional-conduct-and-practice-pdf a'r disgwyliad yn y Cod fod cofrestreion yn ystyried diogelwch a lles dysgwyr sydd yn eu gofal a chynnwys cysylltiedig

- Darparu hyfforddiant i'r staff i gyd fel eu bod yn:

    - deall eu cyfrifoldeb personol
    - – gwybod y gweithdrefnau lleol a gytunwyd a'u dyletswydd i ymateb
    - – yn ymwybodol o'r angen i fod yn wyliadwrus wrth adnabod achosion o gamdriniaeth ac esgeulustra
    - – gwybod sut i gefnogi plentyn sy'n datgelu camdriniaeth neu esgeulustra
    - – deall rôl posibl ymddygiadau ar-lein ym mhob un o'r uchod

- Hysbysu'r MASSH lleol

    - Oes yw disgybl ar gofrestr amddiffyn plant yn cael eu gwahardd naill ai am gyfnod penodol neu'n barhaol
    - Os oes absenoldeb disgybl ar y gofrestr amddiffyn plant heb esboniad am fwy na dau ddiwrnod (neu un diwrnod ar ôl penwythnos)

- Gweithio i ddatblygu cysylltiadau effeithiol gydag asiantaethau perthnasol a chydweithio yn ôl y gofyn â'u ymholiadau mewn perthynas â materion diogelu plant, gan gynnwys bod yn bresennol yn yr adolygiad cychwynnol yn ogystal â

chynadleddau diogelu plant a grwpiau craidd a chyflwyno adroddiadau ysgrifenedig i'r cynadleddau.

- Cadw cofnodion ysgrifenedig am blant a sicrhau bod y cofnodion i gyd yn cael eu cadw mewn lleoliadau dan glo (gan nodi'r dyddiad, y digwyddiad a'r camau a gymerwyd) hyd yn oed pan nad oes angen cyfeirio'r mater at yr awdurdod lleol yn syth

- Cadw at y gweithdrefnau yn nogfen Llwodraeth Cymru *Gweithdrefnau disgyblu a diswyddo staff ysgol:Canllawiau diwygiedig i gyrff llywodraethu* https://www.llyw.cymru/gweithdrefnau-disgyblu-diswyddo-staff-ysgol

- Sicrhau bod gweithdrefnau recriwtio a dewis yn digwydd yn unol â Chyfarwyddyd LlC - Cadw Dysgwyr yn Ddiogel

Cefnogi'r Disgybl mewn perygl

Yn unol â Deddf Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, dylai ysgolion a cholegau gynnal pwyslais ar atal, o ran ymyrraeth gynnar, gyda'r bwriad o leihau'r risgiau y mae plant yn cael eu gwneud yn agored ac anawsterau yn nes ymlaen mewn bywyd. Mae bod yn agored i brofiadau niweidiol mewn plentyndod (PNP) yn gysylltiedig â deilliannau gwaeth o ran iechyd a lles. Mae adnabyddiaeth gynnar, ymyrraeth a chamau i liniaru effaith PHP, ar hyd bywyd, yn hanfodol. Mae PNP yn brofiadau trawmatig sy'n digwydd cyn 18 oed ac sy'n cael eu cofio yn ystod blynyddoedd oedolyn. Gallant gynnwys camdriniaeth plant fel camdriniaeth ac esgeulustra corfforol, rhywiol a llafar a phrofiadau ehangach o gamweithrediad teuluol, fel cael eich magu ar aelwyd sydd wedi ei heffeithio gan drais domestig, gwahanu rhieni, defnydd o alcohol a chyffuriau, salwch meddwl neu garcharu rhiant. Rydym yn cydnabod y gall plant sydd mewn perygl, yn dioddef camdriniaeth neu sy'n dyst i drais, gael eu heffeithio gan hyn ac mai'r ysgol hon, efallai, yw'r unig elfen ddiogel, a chyfarwydd ym mywydau plant sydd mewn perygl. Yn yr ysgol, efallai bod eu hymddygiad yn heriol ac yn herfeiddiol neu efallai eu bod yn dawedog. Bydd yr ysgol yn ymdrechu i gefnogi'r disgybl trwy:

- gynnwys y cwricwlwm i annog hunan-barch a hunan-ysgogiad

- ethos yr ysgol sydd :

    - yn hyrwyddo amgylchedd cadarnhaol, cefnogol a diogel
    - yn rhoi teimlad o werth i ddisgyblion

- polisi ymddygiad yr ysgol, sy'n ceisio cefnogi disgyblion bregus yn yr ysgol. Bydd y staff i gyd yn cytuno dull cyson sy'n canolbwyntio ar ganlyniad ymddygiadol y plentyn ond nad sy'n niweidio synnwyr yr unigolyn o hunanwerth. Bydd yr ysgol yn ymdrechu i sicrhau bod y dysgwr yn gwybod bod peth ymddygiad yn annerbyniol ond eu bod yn cael eu gwerthfawrogi ac nid ydyn nhw are fai am unrhyw gamdriniaeth.

- cyswllt ag asiantaethau eraill sy'n cefnogi'r disgybl fel swyddogion yr awdurdod lleol - er enghraifft, y gwasanaeth seicoleg addysgol, gwasanaethau cymorth ymddygiad neu'r Gwasanaeth Lles Addysg - gwasanaethau iechyd meddwl plant a phobl ifanc, a gwasanaethau eiriolaeth

- cadw cofnodion a hysbysu'r awdurdod lleol cyn gynted ag y mae pryder yn digwydd eto.

- Pan fo dysgwr ar y gofrestr amddiffyn plant yn gadael, byddwn yn trosglwyddo'r wybodaeth i'r darparwr newydd yn syth ac yn dweud wrth ofal cymdeithasol.

Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (VAWDASV)

Mae ein hysgol yn ymwybodol bod trais yn erbyn menywod, gamdriniaeth domestig a thrais rhywiol yn gallu cael effaith anferth ar blant a phobl ifanc a gall effeithio ar eu diogelwch, iechyd a lles, cyrhaeddiad addysgol, perthnasau gyda theulu a chymheiriaid a'u gallu i fwynhau perthnasau iach, parchus yn y dyfodol. Rydym yn ymrwymedig i ddull ysgol gyfan o daclo hyn fel sydd yn y Canllaw Arferion Da: Dull Addysg Gyfan o fynd i'r afael â Thrais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol yng Nghymruhttps://www.llyw.cymru/byw-heb-ofn?policies-and-guidance%2Fgood-practice-guide-a-whole-education-approach= ac mae disgyblion yn cael eu cefnogi trwy'r cwricwlwm trwy ddarparu gwersi perthnasau iach priodol, ac mae staff a llywodraethwyr yn cael eu hannog i ymgymryd â hyfforddiant yn unol â'r Fframwaith Hyfforddiant Cenedlaethol.

Ymgyrch Encompass

Mae ein hysgol yn cefnogi Ymgyrch Encompass sy'n bartneriaeth diogelu ymyrraeth gynnar rhwng yr heddlu ac addysg. Mae Heddlu Gwent yn dweud wrth ysgolion cynradd ac uwchradd perthnasol am unrhyw ddigwyddiad o gamdriniaeth domestig sy'n cael ei brofi gan, neu sy'n cynnwys plentyn neu berson ifanc. Mae hyn yn galluogi ein hysgol i roi'r gefnogaeth fwyaf priodol ac mae'n creu amgylchedd ymddiriedus i blant a phobl ifanc ar ôl unrhyw ddigwyddiad.

Diogelu Disgyblion sy'n Agored i Eithafiaeth - Dyletswydd Prevent

Mae ein hysgol/lleoliad yn rhoi gwerth ar hawliau sylfaenol rhyddid mynegiant, mynegi credoau ac ideoleg a goddefgarwch o eraill sy'n werthoedd craidd ein cymdeithas ddemocratiadd. Serch hynny, ynglhwm wrth pob hawl, mae yna gyfrifoldebau ac ni fyddwn yn goddef rhyddiad mynegiant neu gredoau sydd wedi eu bwriadu i ddylanwadu ar bobl fregus neu sy'n annog niwed neu gasineb tuag at eraill. Rydym bob amser yn ceisio amddiffyn ein plant a'n staff rhag pob neges a mathau o eithafiaeth ac ideolegau. Rydym yn defnyddio cyfleoedd yn y cwricwlwm i edrych ar a herio'r pynciau yma a hyrwyddo gwerthoedd democratiaeth a pharc ar y cyd a goddefgarwch at ffydd a chredoau gwahanol.

Mae ein hysgol/lleoliad yn glir y bydd ecsbloetio a radicaleiddio'n cael eu hystyried yn fater o bryder o ran diogelu a bydd digwyddiadau'n cael eu cyfeirio at yr asiantaethau diogelu priodol.

Mae gan yr ysgol asesiad risg, yn unol â Dyletswydd Prevent ac mae pob aelod o staff sydd â dyletswyddau diogelu dynodedig wedi derbyn hyfforddiant mewn perthynas â Dyletswydd Prevent sy'n cael ei adnewyddu pob 2 flynedd. Fel gydag unrhyw risgiau diogelu eraill, maen nhw i gyd yn ymwybodol bod rhaid iddyn nhw dynnu sylw'r PDD i bryderon a bydd ef/hi'n cymryd camau priodol. **Gweler Atodiad 7.**

Dyletswydd Adrodd Gorfodol Llurgunio Organau Rhywiol Merched (FGM)

Ar 31ain Hydref 2016 cyflwynwyd dyletswydd newydd sy'n gofyn bod pobl broffesiynol mewn iechyd a gofal cymdeithasol ac athrawon yn adrodd am achosion hysbys o FGM mewn merched o dan 18 oed wrth yr heddlu.

Yn y DU, mae pob math o FGM yn anghyfreithlon o dan y Ddeddf Llurgunio Organau Rhywiol Merched 2003, ac mae ein hysgol yn dilyn canllawiau amlasiantaeth y Swyddfa Gartref sy'n amlinellu'r camau y dylid eu cymryd gan bobl broffesiynol rheng flaen, gan gynnwys athrawon, i amddiffyn merched a menywod a chynnig iddyn nhw y gefnogaeth y mae ei hangen arnynt. Mae Protocol Gweithdrefnau Diogelu Cymru ar FGM hefyd yn rhoi cyngor ar ddiogelu merched rhag FGM.

Bydd unrhyw wybodaeth neu bryder bod plentyn mewn perygl yn syth o, neu ei bod wedi dioddef FGM yn arwain at atgyfeiriad amddiffyn plentyn yn syth.

Ymddygiad Rhywiol Niweidiol

Gall camdriniaeth rhywiol ddigwydd rhwng plant o unrhyw oedran a rhyw, ac mae'n digwydd mewn nifer o ffurfiau ar hyd llinell sy'n mynd o aflonyddu rhywiol at gamdriniaeth rhywiol, gan gynnwys camfanteisio rhywiol gan gyfoedion ac ymddygiad rhywiol niweidiol. Mae camdriniaeth rywiol gan gymheiriaid yn cynnwys plant o oedrannau/grwpiau blwyddyn tebyg, tra bod mathau eraill o ymddygiad rhywiol yn golygu gwahaniaeth mawr mewn oedran. Yn gynyddol, mae camdriniaeth rywiol gan gymheiriaid yn digwydd trwy lwyfannau digidol, sy'n ei gwneud yn fwy cymhleth i'w thaclo gan leoliadau addysg. Rydym yn cydnabod bod yna linell o ymddygiadau sy'n gyfystyr â chamdriniaeth rhywiol gan gymheiriaid , ecsbloetio ac ymddygiad rhywiol niweidiol. Byddwn yn ymateb i bob ymddygiad mewn ffordd gymesur ac yn unol Chynllun Gweithredu LlC Aflonyddu Rhywiol rhwng Cyfoedion mewn lleoliadau addysg (Ion 24). Rydym yn parhau i sicrhau bod dull ysgol gyfan o greu perthnasau iach, llawn parch rhwng cyfoedion yn cael ei ymwreiddio yn ein hysgol ac yn defnyddio gweithdrefnau priodol diogelu ac amddiffyn plant yn ôl y gofyn.

Plant ag Anghenion Dysgu Ychwanegol

Rydym yn cydnabod bod plant ag anawsterau ymddygiad, yn ystadegol, yn fwyaf agored i gamdriniaeth Mae angen i staff ysgol sy'n ymdrin â phlant ag anableddau dwys a niferus, nam synhwyraidd a/neu broblemau emosiynol neu ymddygiadol fod yn arbennig o ymwybodol o arwyddion camdriniaeth.

Rhaid staff ddweud yn syth:

- am unrhyw amheuaeth bod plentyn wedi ei anafu, ei farcio, neu ei gleisio mewn ffordd nad oes modd ei phriodoli i'r niwed arferol a geir wrth chwarae
- am unrhyw esboniad a roddir sy'n ymddangos yn anghyson neu'n amheus
- unrhyw ymddygiadau sy'n arwain at amheuaeth fod plentyn efallai wedi dioddef niwed (e.e. chwarae neu dynnu llun sy'n peri pryder)
- am unrhyw bryderon y gall plentyn fod yn dioddef o ofal annigonol, triniaeth wael neu gamdriniaeth emosiynol

- am unrhyw bryderon fod plentyn yn dangos arwyddion neu symptomau camdriniaeth neu esgeulustra

- unrhyw newidiadau sylweddol mewn ymddangosiad plentyn, gan gynnwys diffyg presenoldeb

- am unrhyw awgrym neu ddatgeliad o gamdriniaeth gan unrhyw berson

- am unrhyw bryderon ynghylch pobl a all fod yn berygl i blant (e.e. yn byw ar aelwyd gyda phlant yn bresennol)

Ymateb i Ddatgeliad

Gellir derbyn datgeliadau neu wybodaeth gan ddisgyblion, rhieni neu aelodau eraill o'r cyhoedd. Mae'r ysgol yn cydnabod bod y rheiny sy'n datgelu gwybodaeth o'r fath efallai'n gwneud hynny gydag anhawster, ar ôl dewis yn ofalus y sawl y maen nhw'n mynd i siarad â nhw. Felly, bydd y staff i gyd yn ymdrin â datgeliadau mewn ffordd deimladwy. Yn unol â hynny bydd pob aelod o staff yn delio â datgeliadau gyda sensitifrwydd ac aelodau allweddol o'r tim diogelu bob amser ar gael i gefnogi pob unigolyn sydd wedi gwneud datguddiad.

Ni all gwybodaeth o'r fath aros yn gyfrinachol a bydd staff yn cyfathrebu'n syth yr hyn a ddywedwyd wrthyn nhw wrth y person dynodedig ac yn gwneud cofnod yn syth. Ni ddylai plant sydd wedi gwneud datgeliad gael eu cyfweld eto gan staff yr ysgol - dylid gwneud atgyfeiriad amddiffyn plentyn.

Ni fydd staff yn ymchwilio ond byddan nhw, ble mae hynny'n bosibl, yn tynnu allan digon o wybodaeth i'w throsglwyddo i'r person dynodedig er mwyn iddo/i allu gwneud penderfyniad gwybodus ynglŷn â beth i'w wneud nesaf.

Bydd staff yn:

- gwrando ar a chymryd o ddifri unrhyw ddatgeliad neu wybodaeth y gallai plentyn fod mewn perygl o niwed

- ceisio sicrhau nad oes rhaid i'r person sy'n datgelu siarad ag aelod arall o staff yr ysgol

- cael eglurder ar y wybodaeth

- ceisio gofyn cyn lleied o gwestiynau a phosibl a'u gwneud yn 'agored' e.e. ‘Elli di ddweud wrthyf i beth ddigwyddodd?’ yn hytrach na ‘A wnaeth x dy fwrw?’

- ceisio peidio â dangos unrhyw arwydd o syndod neu ddychryn

- ddim mynegi teimladau na barn ynglŷn ag unrhyw berson yr honnir iddyn nhw niweidio'r plentyn

- esbonio'n deimladwy i'r person fod ganddyn nhw gyfrifoldeb i gyfeirio'r wybodaeth i'r person diogelu dynodedig

- tawelu meddwl a chefnogi'r person cymaint â phosibl

- esbonio mai dim ond y rheiny sydd 'angen gwybod' fydd yn cael gwybod

- esbonio beth fydd yn digwydd nesaf ac y bydd y person yn rhan o hyd fel sy'n briodol

Camau gan y PDD

Ar ôl unrhyw wybodaeth sy'n peri pryder, bydd y PDD yn ystyried:

- unrhyw anghenion meddygol brys y plentyn

- ymgynghori â'r bobl briodol e.e. Swyddog Diogelu, Gofal Cymdeithasol

- dymuniadau'r plentyn

Yna bydd yn penderfynu:

- ble bynnag mae hynny'n bosibl, siarad â rhieni, oni bai y byddai gwneud hynny'n rhoi'r plentyn mewn perygl sylweddol, yn rhwystro unrhyw ymchwiliad gan yr heddlu a/neu osod yr aelod o staff neu eraill mewn perygl
- p'un ai i wneud atgyfeiriad amddiffyn plentyn i'r gofal cymdeithasol oherwydd bod plentyn yn dioddef neu'n debygol o ddioddef niwed sylweddol ac mae angen gwneud hyn yn syth

NEU

- peidio â gwneud atgyfeiriad ar hyn o bryd

- a oes angen monitro pellach

- Bydd yr holl wybodaeth a'r camau a gymerwyd, gan gynnwys y rhesymau am unrhyw benderfyniadau a gafodd eu gwneud, yn cael eu cofnodi'n llawn. Bydd pob atgyfeiriad at ofal cymdeithasol yn dod gyda ffurflen atgyfeiriad Dyletswydd i Adrodd (MARF).

Camau ar ôl atgyfeiriad amddiffyn plentyn

Bydd y PDD neu aelod priodol arall o'r staff yn:

- cysylltu'n rheolaidd gyda'r Gweithiwr Cymdeithasol i gael gwybodaeth

- ble bynnag mae hynny'n bosibl, cyfrannu i'r Drafodaeth Strategaeth

- darparu adroddiad i, mynychu a chyfrannu at unrhyw Gynhadledd Amddiffyn Plant sy'n dod wedyn

- os yw'r plentyn neu blant yn cael eu rhoi ar y Gofrestr Amddiffyn Plant, cyfrannu at y Cynllun Amddiffyn Plant a mynd i Gyfarfodydd Grwp Craidd a Chynadleddau Amddiffyn Plant Adolygol.

- ble mae hynny'n bosibl, rhannu pob adroddiad gyda'r rhieni cyn cyfarfodydd

- ble mae'n anghytuno â phenderfyniad e.e. i beidio â defnyddio Gweithdrefnau Amddiffyn Plant neu i beidio â galw Cynhadledd Amddiffyn Plant, trafod hyn gyda'r Rheolwr Diogelu yn Uned Diogelu Torfaen.

- ble mae plentyn ar y gofrestr amddiffyn plant yn symud o'r ysgol neu'n mynd ar goll, dweud yn syth wrth y gweithiwr allweddol yng Ngofal Cymdeithasol

Cofnodi a monitro

Bydd cofnodion cywir yn cael eu gwneud cyn gynted ag y bo'n ymarferol a bydd yn gwahaniaethu'n amlwg rhwng arsylwad, ffeithiau, barn a damcaniaeth. Bydd pob cofnod yn cael eu llofnodi a'u dyddio, bydd unrhyw wybodaeth a roddir yn cael ei chofnodi gair am air ble mae hynny'n bosibl a gwneir nodyn o leoliad a disgrifiad o unrhyw anafiadau a welir.

Bydd y dogfennau amddiffyn plant i gyd yn cael eu cadw mewn ffeil 'Amddiffyn Plant', ar wahân i brif ffeil y plentyn. Bydd yn cael ei chadw o dan glo ac ar gael i'r Pennaeth a'r PDD yn unig. Bydd y cofnodion yma'n cael eu copïo a'u trosglwyddo i unrhyw ysgol neu leoliad y mae'r plentyn yn symud ati/o, wedi ei marcio'n eglur 'Amddiffyn Plant, Cyfrinachol, at sylw'r Cydlynydd Amddiffyn Plant' **(Gweler Atodiad 8)**. Os yw'r plentyn yn mynd ar goll o addysg neu mae wedi ei ddileu o'r gofrestr er mwyn cael addysg gartref, yna dylai'r ffeil Amddiffyn Plant gael ei chopïo a dylai'r copi gael ei danfon at y Gwasanaeth Lles Addysg. **Cedwir copïau gwreiddiol tan ben-blwydd y plentyn yn 25 oed - dylai'r rhain gael eu cadw gan yr ysgol.**

Cefnogi'r Plentyn a Phartneriaeth gyda Rhieni

Mae'r ysgol yn cydnabod fod lles y plentyn o'r pwys pennaf, serch hynny mae arfer diogelu plant da a chanlyniadau hynny'n dibynnu ar bartneriaeth agored ac onest gyda rhieni

Er y bydd angen i ni, weithiau, wneud atgyfeiriadau heb ymgynghoriad â rhieni, byddwn yn gwneud pob ymdrech i gynnal perthynas gadarnhaol gyda nhw gan gyflawni ein dyletswyddau i amddiffyn unrhyw blentyn

Byddwn yn darparu perthynas diogel, gofalgar, cefnogol a gwarchodol i'r plentyn

Bydd plant yn derbyn esboniad cywir (yn addas i oedran a dealltwriaeth) o ba gamau sy'n cael eu cymryd ar eu rhan a pham

Byddwn yn ymdrechu bob tro i warchod preifatrwydd, urddas a hawl cyfrinachedd y plentyn a rhieni. Bydd y PDD yn penderfynu pa aelodau o'r staff sydd "angen gwybod" gwybodaeth bersonol a beth mae "angen gwybod" at ddibenion cefnogi a gwarchod y plentyn

Honiadau ynglŷn â pherson(au) sy'n gweithio yn neu ar ran yr ysgol (gan gynnwys gwirfoddolwyr)

Ble mae cyhuddiad yn cael ei wneud yn erbyn unrhyw un sy'n gweithio yn neu ar ran yr ysgol ei fod ef neu ei bod hi wedi:

a. Ymddwyn mewn ffordd sydd wedi niweidio plentyn neu sydd efallai wedi niweidio plentyn

b. Cyflawni trosedd o bosibl yn erbyn neu mewn perthynas â phlentyn neu
c. Ymddwyn tuag at plentyn neu blant mewn ffordd sy'n dangos ei fod/bod un anaddas i weithio gyda phlant.

Byddwn yn gweithredu'r un egwyddorion ag sydd yng ngweddill y ddogfen hon a byddwn bob amser yn dilyn Gweithdrefnau Bwrdd Diogelu Gwent Mae gweithdrefnau disgyblu'r ysgol hefyd yn adlewyrchu'r gofynion hyn.

Caiff cofnodion manwl eu gwneud i gynnwys penderfyniadau, camau a gymerwyd a'r rhesymau dros y rhain. Cedwir pob cofnod yn ddiogel ar feddalwedd My Concern.

Er ein bod ni'n cydnabod y gall cyhuddiadau o'r fath (fel rhai eraill), fod yn ffug, yn faleisus neu'n anaddas, rydym hefyd yn cydnabod y gallai fod sail iddynt. Mae'n hanfodol, felly, bod y cyhuddiadau yma'n cael eu hymchwilio'n iawn ac yn unol â'r gweithdrefnau a gytunwyd.

(Efallai bydd yr ysgol am ehangu'r adran hon i gynnwys gweithdrefnau yn gysylltiedig â Gweithdrefnau Bwrdd Diogelu Gwent a Gweithdrefnau Disgyblu Torfaen).

Cyfrifoldebau Diogelu mewn Amgylchiadau Penodol

Mae yna nifer o ystyriaethau ychwanegol mewn perthynas â materion diogelu penodol ac mae toreth o gyfarwyddyd y mae'n rhaid i ysgolion ei ddilyn i fodloni eu dyletswyddau a'u cyfrifoldebau diogelu. Ymhlith y materion penodol mae:

Camdriniaeth gan blaen a phobl ifanc
Plant sy'n ceisio lloches
Disgyblion Du a Lleiafrifoedd Ethnig
Bwlio
Delweddau Camdriniaeth Plant a'r rhyngrwyd
Camdriniaeth Plant yn gysylltiedig â dewiniaeth a chredoau ysbrydol
Esgeuluso Plant
Plant a phobl ifanc yn y system gyfiawnder ieuenctid
Plant sy'n byw i ffwrdd o gartref neu mewn llety dros dro
Camfanteisio Troseddol ar Blant
Camfanteisio'n Rhywiol ar Blant
Plant a allai fod wedi eu masnachu
Plant sy'n colli addysg
Plant sydd wedi dianc/sydd ar goll
Plant Anabl
Diogelwch ar-lein
Salwch ffug neu wedi ei greu
Llurgunio Organau Rhywiol Merched
Priodas dan orfodaeth a thrais ar sail anrhydedd
Gofal maeth, gan gynnwys maethu preifat
Ymweliadau cyfnewid o dramor
Trais ar sail rhywedd, camdriniaeth domestig a thrais rhywiol
Cysylltiad corfforol gyda disgyblion, gan gynnwys ffrwyno
Radicaleiddio
Pobl ifanc sy'n weithgar yn rhywiol
Camddefnyddio Sylweddau
Hunanladdiad
Camdriniaeth partner agos mewn arddegau

Dylai ysgolion gyfeirio felly at Gyfarwyddyd LlC 272/2021 Cadw Dysgwyr yn Ddiogel ar gyfer dolenni at gyfarwyddyd statudol ac arfer da ar faterion diogelu penodol.

Cysylltiadau Defnyddiol Eraill

Bwrdd Diogelu Gwent – www.gwentsafeguarding.org.uk

Trais yn Erbyn Menywod Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (VAWDASV) – Vawdasv Gwent – Vawdasv.Gwent@newport.gov.uk

Tîm Diogelwch Cymunedol – CommunitySafetyTeam@torfaen.gov.uk

NSPCC – www.nspcc.org.uk

ChildLine – www.childline.org.uk

Plant yng Nghymru - https://www.childreninwales.org.uk/cy/

Hwb - Dysgu Digidol i Gymru – Hwb (gov.wales)

Trais Domestig - Byw Heb Ofn - https://www.llyw.cymru/byw-heb-ofn

Diogelwch ar y Rhyngrwyd - SWGfL - www.swgfl.org.uk

Atodiad 1

Fframwaith Deddfwriaethol

Mae Deddfwriaeth yn sail i Bolisi a Gweithdrefnau Diogelu ALl Torfaen.

DEDDF PLANT 1989

Mae Adran 47 yn gosod dyletswydd ar:

- unrhyw awdurdod lleol;
- unrhyw awdurdod addysg lleol;
- unrhyw awdurdod tai;
- unrhyw awdurdod iechyd, Awdurdod Iechyd Arbennig neu Ymddiriedolaeth y Gwasanaeth Iechyd Gwladol; ac
- unrhyw berson a awdurdodir gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru

i helpu Awdurdod Lleol gyda'i ymholiadau mewn achosion ble mae yna achos rhesymol i amau fod plentyn yn dioddef, neu'n debygol o ddioddef, niwed sylweddol.

Ystyr "niwed"

Diffinnir "Niwed" yn adran 31(9) Deddf Plant 989 fel "camdriniaeth neu amhariad ar iechyd neu ddatblygiad". Mae'n ehangach na thrais corfforol ac mae'n cynnwys camdriniaeth rywiol a mathau o gamdriniaeth nad ydynt yn gorfforol. Mae unrhyw niwed mae plentyn yn ei ddioddef oherwydd bod rhiant yn cael eu haflonyddu neu eu dychryn yn cael ei gynnwys yn y diffiniad o "niwed". Mae Adran 120 Deddf Mabwysiadu a Phlant 2002 yn newid diffiniad niwed yn Neddf Plant 1989 i "camdriniaeth neu amhariad ar iechyd neu ddatblygiad, gan gynnwys, er enghraifft, amhariad a dioddefir o weld neu glywed camdriniaeth rhywun arall".

DEDDF PLANT 2004

Mae'r Ddeddf Plant (2004) yn cyflwyno'r fframwaith ar gyfer y gwasanaethau i gyd sy'n gweithio gyda phlant, gyda diogelu plant yn cael ei gydnabod fel maes allweddol sydd nawr yn gyfrifoldeb canolog pob asiantaeth sy'n cael eu goruchwylio gan y Bwrdd Diogelu Plant Lleol.

Mae'r Ddeddf Plant 2004 yn cryfhau'r trefniadau ar gyfer amddiffyn a hyrwyddo lles plant a phobl ifanc. Mae'n gosod dyletswydd ar awdurdodau lleol yng Nghymru i wneud trefniadau i hyrwyddo cydweithredu er mwyn gwella lles plant yn ei hardal, mewn perthynas â:

- Iechyd corfforol a meddyliol a lles emosiynol.
- Gwarchod rhan niwed ac esgeulustra.
- Addysg, hyfforddiant a difyrrwch.
- Eu cyfraniad at gymdeithas.
- Lles cymdeithasol ac economaidd.

DEDDF ADDYSG 2002

Mae Adran 175 y Ddeddf Addysg 2002 yn gosod dyletswyddau statudol at ALlau a Chyrff Llywodraethol pob ysgol a sefydliad addysg bellach i wneud trefniadau i sicrhau bod eu swyddogaethau yn cael eu cyflawni gyda'r bwriad o ddiogelu a hyrwyddo lles plant. Hefyd, rhaid i'r cyrff yma ystyried unrhyw gyfarwyddyd a rodir gan yr Ysgrifennydd Gwladol wrth iddynt ystyried pa drefniadau mae angen iddyn nhw eu gwneud o dan Adran 175.

Mae Adran 157 yn gosod yr un dyletswyddau ar berchnogion colegau ac ysgolion annibynnol.

‘Mae pawb yn y Gwasanaeth Addysg yn rhannu amcan i helpu i gadw plant a phobl ifanc yn ddiogel trwy gyfrannu at:

Ddarparu amgylchedd diogel i blant a phobl ifanc gael dysgu mewn lleoliadau; a
Adnabod plant a phobl ifanc sy'n dioddef neu sy'n debygol o ddioddef niwed sylweddol a chymryd camau priodol gyda'r nod o sicrhau eu bod yn cael eu cadw'n ddiogel gartref ac yn yr ysgol'.

(Cyfarwyddyd Diogelu Plant mewn Addysg, 2004)

DEDDF HAWLIAU DYNOL 1998 a DEDDF DIOGELU DATA 1998

Mae'r Ddeddf Plant 1989 a'r Ddeddf Hawliau Dynol 1998 wedi newid y ffordd mae atgyfeiriadau at Ofal Cymdeithasol yn cael eu gwneud. Mae gan rieni hawl nawr i wybod bod eu plentyn yn cael eu hatgyfeirio - oni bai ei fod yn rhesymol tybio y bydd rhoi gwybod i'r rhieni'n peryglu'r plentyn neu y byddai'n arwain at ddinistrio tystiolaeth - mae hyn yn fwyaf tebygol mewn achosion o gamdriniaeth gorfforol neu rywiol.

Gall plentyn ddod ag achos eu hunain am iawndal yn erbyn Awdurdod Lleol, yn hytrach nag achos trwy eu rhieni. Pan ddaw'r plentyn yn oedolyn, gall ddwyn achos o fewn tair blynedd o fod yr anaf wedi dod yn hysbys iddynt, ond gall y llys ymestyn y cyfnod hwn. Os yw'n dwyn achos pan yn blentyn gall y rheini neu warcheidwad wneud hyn. Mae hyn yn golygu y dylid cadw cofnodion disgyblion am naw mlynedd ar ôl i'r plentyn adael ysgol (fan lleiaf).

Mae deddfwriaeth diogelu data'n golygu fod gan rieni/cyn-ddisgyblion yr hawl i weld eu cofnodion ysgol ac er bod gwybodaeth amddiffyn plant wedi ei heithrio o'r gofyniad yma, os yw rhiant neu gyn-ddisgybl yn gofyn i gael gweld nodiadau sy'n cofrestru unrhyw bryderon amddiffyn plant, yna mae'n debygol y byddai'n rhaid i Awdurdod Lleol eu dangos, oni bai y byddai gwneud hynny'n achosi niwed i'r rhiant, oni bai bod yr achos wedi ymwneud ag erlyniad troseddo, gorchymyn gofal neu waharddeb gyfreithiol arall. Felly, mae'n hanfodol bod yr holl wybodaeth sy'n cael ei ysgrifennu am blant, neu gyhuddiadau gan blant yn cael eu cyfyngu i sylwadau gwrthrychol, esboniadau gair am air a gwybodaeth ffeithiol.

Cyn datgelu unrhyw wybodaeth fel cais mynediad, dylech ddilyn gweithdrefn Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen. Os oes amheuaeth cysylltwch â Rheolwr Diogelwch Gwybodaeth y Cyngor neu'r Gwasanaethau Cyfreithiol. **DEDDF TROSEDDAU RHYWIOL 2003**

Mae Deddf Troseddau Rhywiol 2003 wedi sefydlu fframwaith cyfreithiol newydd ar gyfer diffinio perthnasau derbyniol ac annerbyniol. **Mae'n rhoi eglurder ei bod yn amhriodol i unrhyw berson proffesiynol mewn addysgu ffurfio perthynas agos gyda pherson ifanc dan 18 oed.** Datganir hyn yn eglur yng Nghod Ymddygiad yr ALl. Mae'n gwneud darpariaeth newydd am droseddau rhywiol gan gynnwys y rheiny yn erbyn plant.

DEDDF CYDRADDOLDEB 2010 Mae Deddf Cydraddoldeb 2010 yn gosod dyletswyddau statudol ar awdurdodau lleol a sefydliadau addysgol fel bo gan bob ysgol, waeth sut maen nhw'n cael eu hariannu neu eu rheoli, rwymedigaethau o dan y Ddeddf Cydraddoldeb fel cyflogwyr, darparwyr a chyrff sy'n cyflawni swyddogaethau cyhoeddus.

DEDDF GWASANAETHAU CYMDEITHASOL A LLESIANT 2014

Daeth y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant 2014 i rym ar 6 Ebrill 2016. Mae'r Ddeddf yn beirianwaith cyflenwi allweddol ar gyfer gweithredu a chryfhau agweddau allweddol o agenda diogelu Llywodraeth Cymru . Mae amrediad y Ddeddf yn ymestyn y tu hwnt i'r gwasanaethau cymdeithasol. Mae'n cyflwyno'r cyfrifoldebau o ran hyrwyddo lles ac mae'n gosod cyfrifoldeb ar awdurdodau lleol i drefnu neu ddarparu gwasanaethau sy'n cyfrannu at atal camdriniaeth ac esgeulustra. Mae wedi cryfhau trefniadau ar gyfer diogelu ac amddiffyn oedolion ac yn gwella lles i bobl sydd angen gofal a chefnogaeth, a gofalwyr sydd angen cefnogaeth trwy ddarparu fframwaith deddfwriaethol craidd fel sail i amcanion polisi.

DEDDF TRAIS YN ERBYN MENYWOD, CAM-DRIN DOMESTIG A THRAIS RHYWIOL (CYMRU) 2015 (VAWDASV)

Mae'r Ddeddf Trais yn Erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) 2015 yn cyflwyno gofynion i awdurdodau perthnasol baratoi, cyhoeddi a gweithredu strategaethau er mwyn cyfrannu at ei phwrpas. Amcan y Ddeddf yw gwella ymateb y Sector Cyhoeddus trwy ddarparu ffocws strategol i wella'r trefniadau ar gyfer atal, amddiffyn a chefnogaeth i unigolion sy'n cael eu heffeithio gan drais a chamdriniaeth o'r fath.

DEDDF GWRTHDERFYSGAETH 2015

Mae'r Ddeddf Gwrthderfysgaeth 2015 yn gosod dyletswydd ar 'awdurdodau penodedig' wrth iddynt gyflawni eu swyddogaethau, i "ystyried yn briodol yr angen i atal pobl rhag cael eu tynnu i mewn i derfysgaeth". Mae'r Ddeddf yn dweud fod rhaid i'r awdurdodau sy'n ddarostyngedig i'r darpariaethau ystyried y cyfarwyddyd hwn wrth gyflawni'r ddyletswydd. **Mae'r cyfarwyddyd canlynol wedi cael ei ystyried hefyd:**

Gweithdrefnau Diogelu Cymru

Fframwaith Gwasanaeth Cenedlaethol - Mae'r Fframwaith Gwasanaeth Cenedlaethol (FfGC) i blant a phobl ifanc yn dweud fel rhan o'i amcanion y dylai "Pob plentyn a pherson ifanc yn cyrraedd iechyd a lles posibl ac yn cael eu cefnogi i gyrraedd eu potensial". Bydd yr amcanion a amlinellir yng Nghynllun Corfforaethol Torfaen yn sicrhau y bydd hyn yn cael ei gyflawni trwy weithio amlasiantaeth/amlddisgyblaeth.

Ar Goll Mewn Gofal - adroddiad y Tribiwnlys Ymchwiliad i gamdriniaeth plant mewn gofal yn hen ardaloedd cynghorau siroedd Gwynedd a Chlwyd ers 1974, Adran Iechyd, 2000.

Fframwaith ar gyfer Asesu Plant mewn Angen a'u teuluoedd - Adran Iechyd, 2000.

Adroddiad Clywch ar Archwiliad Comisiynydd Plant Cymru i honiadau o gamdriniaeth rywiol plant mewn ysgol - 2004.

Adroddiad Ymchwiliad Bichard - Y Swyddfa Gartref, 2004.

Adroddiad ac Ymchwiliad Victoria Climbie gan yr Arglwydd Laming, 2003.

Diogelu Plant: Gweithio Gyda'n Gilydd o dan y Ddeddf Plant 2004
Cyfarwyddyd LlC 272/2021 - Cadw Dysgwyr yn Ddiogel - Ebrill 2021

Cyfarwyddyd LlC 009/2014 - Diogelu Plant mewn Addysg - Ymdrin â Honiadau o Gam-drin yn erbyn athrawon a staff eraill - Ebrill 2014

Polisi Diogelu Corfforaethol ALl Torfaen

CATEGORÏAU CAMDRINIAETH

Gall rhywun gam-drin neu esgeuluso plentyn trwy achosi niwed neu drwy fethu â gweithredu i atal niwed. Gall plant gael eu cam-drin mewn sefyllfa deuluol neu sefydliadol, gan y rheiny sy'n adnabyddus iddyn nhw neu, yn fwy anghyffredin, gan eraill (e.e. trwy'r rhyngrwyd). Gallan nhw gael eu cam-drin gan oedolyn neu oedolion neu blentyn neu blant eraill.

ESGEULUSTRA

Esgeulustra yw'r methiant parhaus i fodloni anghenion corfforol a seicolegol a/neu sylfaenol plentyn, sy'n debygol o arwain at amhariad difrifol ar iechyd neu ddatblygiad y plentyn.

Gall gynnwys bod rhiant neu ofalwr yn methu â darparu bwyd a dillad digonol, llety a dillad, methu ag amddiffyn plentyn rhag niwed neu berygl, neu'r methiant i sicrhau gofal neu driniaeth briodol.

CAM-DRIN CORFFOROL

Gall camdriniaeth gorfforol olygu taro, siglo, taflu, gwenwynon, llosgi neu sgaldio, boddi, mygu neu achosi niwed corfforol i blentyn mewn ffordd arall.

Gall niwed corfforol gael ei achosi hefyd pan fo rhiant neu ofalwr yn esgus symptomau, neu'n fwriadol achosi, salwch plentyn.

CAM-DRIN EMOSIYNOL

Cam-drin emosiynol yw camdriniaeth emosiynol barhaus plentyn mewn modd sy'n achosi effeithiau niweidiol difrifol a pharhaus ar ddatblygiad emosiynol y plentyn.

Gall gynnwys cyfleu i blant eu bod yn ddiwerth neu heb gariad atynt, yn annigonol, neu fod gwerth arnyn nhw dim ond cyhyd â'u bod yn bodloni anghenion person arall. Gall olygu'r gosod disgwyliadau amhriodol o ran oedran neu ddatblygiad ar blant.

Gall gynnwys peri i blant deimlo ofn neu eu bod mewn perygl, neu ecsbloetio neu lygru plant. Mae rhyw lefel o gamdriniaeth emosiynol ynghlwm wrth bob math o gam-drin plentyn, er y gall ddigwydd ar ei phen ei hun.

CAM-DRIN RHYWIOL

Mae Camdriniaeth Rywiol yn cynnwys gorfodi neu ddenu plentyn neu berson ifanc i gymryd rhan mewn gweithgareddau rhywiol, p'un ai yw'r plentyn yn ymwybodol ai peidio o'r hyn sy'n digwydd.

Gall y gweithgareddau gynnwys cysywllt corfforol, gan gynnwys gweithrediadau treiddiol (e.e. treisio neu ryw geneuol) neu rai nad ydynt yn dreiddiol.

Gallant gynnwys gweithgareddau heb gysylltiad, fel cynnwys plant wrth edrych ar, neu wrth gynhyrchu, delweddau rhywiol, gwylio gweithgareddau rhywiol, neu annog plant i ymddwyn mewn ffyrdd sy'n amhriodol, neu baratoi plentyn ar gyfer camdriniaeth (gan gynnwys dros y rhyngrwyd). Nid yw camdriniaeth rywiol yn cael ei chyflawni gan ddynion yn unig. Gall menywod gyflawni camdriniaeth rywiol hefyd, felly hefyd plant eraill.

Atodiad 3

Teclyn Hunanwerthuso Diogelu Adran 175

Mae Adran 175 y Ddeddf Addysg 2002 yn gosod dyletswyddau statudol at ALlau a chyrff llywodraethol pob ysgol a gynhelir i wneud trefniadau i sicrhau bod eu swyddogaethau yn cael eu cyflawni gyda'r bwriad o ddiogelu a hyrwyddo lles plant. Un o'r ffyrdd y gallwn sefydlu sicrwydd hwn trwy fod ysgolion unigol yn hunanwerthuso eu perfformiad gan ddefnyddio'r Teclyn Hunanwerthuso Diogelu Blynyddol Adran 175 a rhannu'r canlyniadau a gwelliannau cysylltiedig. Bydd hefyd yn helpu i roi tystiolaeth eglur mewn perthynas â chynnydd ysgolion mewn ymateb i'r agenda diogelu ac yn rhoi ffocws ar flaenoriaethau diogelu perthnasol. Anogir ysgolion i ystyried eu tystiolaeth wrth gwblhau eu hatebion a defnyddio'r broses i gefnogi dull lleoliad cyfan o ddiogelu sy'n cael ei ddatblygu'n barhaus.

Bydd y Teclyn Hunanwerthuso Diogelu Adran 175 yn parhau i gael ei ddefnyddio'n flynyddol i ddarparu darlun o ddiogelu ar draws pob ysgol ar yr un pryd ar ryw bwynt mewn amser. Bydd meysydd penodol a amlygir ar ddadansoddiad ALl o werthusiadau yn parhau i gael eu trafod gydag ysgolion unigol yn ôl y gofyn a bydd cefnogaeth/hyfforddiant yn cael ei roi i fynd i'r afael ag unrhyw themâu a nodir trwy glystyrau neu'n gyfan gwbl fel sy'n briodol. Dylid danfon copi o bolisi diogelu'r ysgol hefyd ochr yn ochr â'r gwerthusiad wedi ei gwblhau.

Bydd pob ysgol yn derbyn ateb unigol ac efallai bydd angen ymweliad 'wyneb yn wyneb' ar rai ysgolion os oes angen cefnogaeth ychwanegol a hefyd bydd crynodeb o'r gwerthusiadau'n cael ei gynnwys yn yr adroddiad diogelu blynyddol i ysgolion yn rhoi manylion:

- Cadarnhad fod pob ysgol wedi ymateb
- Unrhyw broblemau
- Unrhyw wersi a ddysgwyd
- Themâu a nodwyd
- Cefnogaeth/hyfforddiant a awgrymir

Bydd croeso i adborth a sylwadau pob blwyddyn y mae'r gwerthusiad yn cael ei gwblhau er mwyn datblygu'r broses ymhellach a sicrhau bod gan ysgolion declyn gwerthuso diogelu gwydn ar gyfer y dyfodol.

I fynd at y Teclyn Hunanwerthuso Diogelu Blynyddol Adran 175 (ar gael yn Saesneg a Chymraeg ill dwy), dilynwch y ddolen isod gan ddefnyddio'r wybodaeth ar y dudalen ganlynol i'ch helpu. Os nad yw'r ddolen yn agor yn awtomataidd, efallai bydd angen i chi ei thorri a'i rhoi yn eich porwr:

https://online1.snapsurveys.com/p2hvqz

Cymer ryw 45 i 60 munud i gwblhau'r Hunanwerthuso Diogelu Blynyddol Adran 175 ac mae'r gwerthusiad mewn adrannau i wneud ei gwblhau yn haws.

Dyma'r dudalen gyntaf y bydd defnyddwyr yn ei gweld pan fyddan nhw'n defnyddio'r ddolen:

Wedyn:

Mae angen ateb pob cwestiwn ar y gwerthusiad ac ni all y defnyddiwr symud ymlaen at y dudalen nesaf oni bai bod pob tudalen yn cael eu cwblhau (bydd y gwerthusiad yn amlygu mewn coch unrhyw gwestiynau heb eu hateb neu sy'n gofyn am fwy o fanylion).

Bydd blychau i ofyn am fwy o fanylion yn ymddangos gydag atebion i rai cwestiynau.

Ar waelod pob tudalen mae yna far cynnydd ynghyd ag opsiwn Yn ôl / Ailosod / Cadw a Nesaf. Defnyddiwch y botwm Cadw i gadw pob ateb ac fe welwch chi'r neges ganlynol yn cadarnhau bod pob ateb wedi ei gadw:



I ailddechrau'r arolwg, cliciwch y ddolen a ddangosir, neu, i ddod yn ôl yn nes ymlaen, rhowch gyfeiriad e-bost a bydd dolen yn cael ei danfon atoch trwy e-bost gyda'r neges ganlynol:



Bydd e-bost yn cyrraedd wedyn gyda dolen i ailddechrau'r arolwg pan fyddwch yn barod i barhau:



Mae'n bwysig cadw gwybodaeth yn rheolaidd gan y byddwch chi'n cael eich dwyn i'r dudalen ddiwethaf y bu i chi ei chadw cyn gadael.

Isod mae ciplun o'r darn olaf yn y gwerthusiad:

Unwaith y bydd pob cwestiwn wedi ei gwblhau, sicrhewch eich bod yn dilyn y cyfarwyddiadau yn y drefn a ddangosir:

- Cliciwch y botwm Argraffu i gael copi caled o'r Teclyn Hunanwerthuso Diogelu Adran 175 i'w gadw.
  Nodyn: dyma'ch unig gyfle i wneud hyn oherwydd, unwaith y bydd y gwerthusiad wedi ei gyflwyno, ni fyddwch yn gallu mynd at eich cais wedi ei gwblhau yn electronig.

- Yna, cliciwch Cyflwyno i flaenyrru eich ateb

NODWCH: pan fyddwch yn cwblhau'r Teclyn Hunanwerthuso Diogelu Adran 175, mae angen defnyddio'r un cyfrifiadur bob tro, bydd mynd at y gwerthusiad ar beiriant gwahanol yn arwain at golli'r atebion blaenorol.

Amserlen ar gyfer 2025 (bydd hyn yn newid yn ôl y gofyn):

- Bydd y Teclyn Hunanwerthuso Diogelu Adran 175 yn cael ei ddanfon at ysgolion pob blwyddyn yn nhymor yr haf.
- Dylai'r PDD gwblhau'r gwerthusiad gyda'r LlDP.
- Dylai'r corff llywodraethol gael gwybod bod yr ysgol yn cwblhau'r gwerthusiad.
- Dylai ysgolion ddychwelyd y gwerthusiad erbyn dydd Mercher 22ain Mai 2024
- Yr Awdurdod Lleol i ddadansoddi gwerthusiadau ym Mehefin/Gorffennaf.
- Atebion unigol i'w danfon i bob ysgol ar ddechrau Medi.
- Crynodeb o'r atebion i'w cynnwys yn yr adroddiad diogelu blynyddol.
- Dylai adborth o'r broses gael ei adrodd i'r corff llywodraethol a dylid cytuno ar unrhyw gamau a'r amserlenni sy'n dilyn (fel arfer o fewn un mis).
- Cwblhau'r camau i'w hadrodd yn ôl i'r corff llywodraethol o fewn yr amserlenni a gytunwyd.
- Dylid cadarnhau cwblhau'r camau gyda'r Awdurdod Lleol erbyn diwedd tymor yr hydref.
- Sylwadau i gyd i'w danfon at Bridie.saunders@torfaen.gov.uk i fod yn sail i ddatblygiad/gwelliant yn y dyfodol.

	Adroddiad Ysgol i Gynhadledd Diogelu Plant **Enw'r Ysgol -** **Dyddiad y Gynhadledd -**
Enw	
Dyddiad Geni (dydd/mis/blwyddyn)	
Cyfeiriad	
Cofrestr Anghenion Arbennig/CAU/Arall	
Cyflyrau Meddygol sy'n Hysbys	
Cofnod presenoldeb	
Prydlondeb	
Unrhyw ddigwyddiadau sylweddol hysbys (*Hanes y Plentyn neu'r Teulu)*	
Anghenion a Datblygiad y Plentyn Gallu academaidd a/neu berfformiad. Ymddangosiad a chyflwyniad. Cyfnod datblygiad	

	Adroddiad Ysgol i Gynhadledd Diogelu Plant
Enw	
Lles Cymdeithasol ac Emosiynol Grŵp Cymheiriaid Ymddygiad Personoliaeth Rhyngweithio gydag Athrawon Lles emosiynol	
Amgylchedd Teulu a Rhianta/Gofalwr Lefel cyfranogiad rhieni/gofalwyr Gwybodaeth o amgylchiadau teuluol ehangach Amgylchiadau cymdeithasol. Lefel cyfranogiad mewn clybiau ar ôl ysgol (ar gyfer e.e.) Perthynas rhwng athrawon a rhieni/gofalwyr Presenoldeb mewn nosweithiau rhieni	

	Adroddiad Ysgol i Gynhadledd Diogelu Plant
Unrhyw sylwadau eraill	

Cofnod Digwyddiadau Diogelu

Er mwyn sicrhau bod gwybodaeth briodol ar gael ynglŷn ag unrhyw bryderon diogelu plant sydd wedi eu mynegi, mae'n hanfodol cwblhau cofnod diogelu plant sy'n cofnodi'n gryno pob pryder, cyfathrebu a'r camau a gymerwyd.

Rhaid i'r cofnod gynnwys:

- Dyddiad/amser derbyn y wybodaeth.
- Manylion y sawl derbyniwyd y wybodaeth ganddynt a'r sawl y'i rhoddwyd iddynt.
- Dyddiad/amser/lleoliad digwyddiad.
- Enw/Dyddiad Geni/cyfeiriad plentyn.
- Manylion yr hyn a ddigwyddodd/a welwyd yn digwydd.
- Mae'n hanfodol bod geiriau'r plentyn ei hun yn cael eu cofnodi.
- Manylion unrhyw un arall sy'n gysylltiedig.
- Pa gamau cymerwyd ar y pryd?
- Manylion camau a gymerwyd gan y PDD
- Dyddiad ac amser cofnodi'r log.
- Llofnodwyd a dyddiwyd y log.
- Manylion atgyfeiriad e.e. at bwy, pryd.
- Os nad oes atgyfeiriad - pam - cadw'r cofnod
- Manylion swyddog yr ALl a hysbyswyd.
- Cofnod o'r camau a awgrymwyd gan ofal cymdeithasol, yr ALl, yr heddlu e.e. cyngor ar ddanfon y plentyn adref neu i'r plentyn aros yn yr ysgol.

Dylai'r cofnodion yma gael eu cadw yn yr ysgol yn ddiogel

Diogelu Gwent
Gwent Safeguarding

Duty to Report Child Safeguarding

(Multi Agency Referral Form)

Date of report:	
Is the Parent/ Carer aware of the report:	YES ☐ NO ☐
Has consent been obtained to make this report:	YES ☐ Verbal or Written Consent NO ☐
If No, give reason:	

CHILD/ YOUNG PERSON'S DETAILS					
Surname:		Forename:		Gender:	
D.O.B: or E.D.D.		Age:		Social Services Number (if known):	
Address:		Postcode:		Telephone Number:	
Current address if different from above:		Child's first language or preferred means of communication:		Is an interpreter/ signer required:	
Child's Religion:		Child's Ethnicity:		Child's Nationality (if not British):	
Is the child an asylum seeker:		Child's immigration status (if known):		Home office registration number (if known):	
Is the child "looked after":		Is the child named on the child protection register:		Does the child have a disability?	
Is the child a traveller:		Is the child a young carer:		Any other information about the child's identity:	

BIRTH PARENT DETAILS/ MAIN CARERS/ PERSONS WITH PARENTAL RESPONSIBILITY (PR)							
Mother's Name:		Mother's address if different from child:		Is an interpreter required:		Mother's First Language:	
Mother's DOB:		Mother's Ethnicity:		Parental needs (learning difficulties, physical disabilities)		Telephone Number:	

Father's Name:		Father's address if different from child:		Is an interpreter required:		Father's First Language:	
Father's DOB							
Father's Ethnicity:		Parental needs (learning difficulties, physical disabilities)		Telephone Number:		Does father have PR:	
Name and DOB:		Relationship to child:		Does this person have PR:		Is an interpreter required:	
Name and DOB:		Relationship to child:		Does this person have PR:		Is an interpreter required:	

OTHER HOUSEHOLD MEMBERS (including NON-Family members)					
Name:		D.O.B:		Relationship to Child:	
Name:		D.O.B:		Relationship to Child:	
Name:		D.O.B:		Relationship to Child:	
Name:		D.O.B:		Relationship to Child:	
Name:		D.O.B:		Relationship to Child:	
Are all children in this **household** subject to this report:	YES ☐ NO ☐				

SIGNIFICANT OTHERS WHO ARE NOT MEMBERS OF THE CHILD'S HOUSEHOLD **(i.e. alleged offender; other family members you consider relevant to this report; fathers of half/ step siblings; partners of parent-carer)**							
Name:		D.O.B:		Address:		Relationship to child:	
Name:		D.O.B:		Address:		Relationship to child:	
Name:		D.O.B:		Address:		Relationship to child:	

REPORT INFORMATION *(Guidance notes have been produced to assist the person submitting this report)*					
Referred by (name):		Agency/ relationship to child:		Does the reporter wish to remain anonymous:	***(please note a practitioner cannot refer anonymously)***
Address:		Telephone Number:		Email:	
Reason for report/ Request for Services:	*Physical Abuse* ☐ *Sexual Abuse* ☐ *Emotional Abuse* ☐ *Financial Abuse* ☐ *Neglect* ☐ *Safeguarding concerns* ☐ *Request for service* ☐				
Outline the circumstances:	*Detail the reasons why you are contacting including any details of the date, time and place where the abuse is alleged to have occurred*				

What are the strengths:	*Positive/ protective relationships; family are keen to engage; good family network*
What are the barriers:	*Reluctance to engage with support; financial difficulties; child care issues; communication issues (language/ hearing/ visual impairment)*
What are the risks:	*Young person not understanding the risk; escalation of risk if not supported; short term and long term risks to overall wellbeing* *PLEASE ALSO DETAIL ANY RISK WHICH MAY AFFECT THE SAFETY OF STAFF*
What other assessments have been undertaken by other agencies (if known):	*e.g. DASH; MIRAF; Routine enquiry and CSERQ4, Recent medical examinations (including child protection medicals); any health assessments*
What are the expected outcomes of this report:	*Safeguarding assessment undertaken to assess potential risk; services are put in place to support the child/ family; information is recorded for the child*
What action/ support has already been undertaken in your agency to address these concerns:	*Include information where reports have been made to other agencies, i.e. Preventions*
Any other relevant information:	*Are you aware of the child previously being named on the child protection register or being "looked after" previously; aware of previous convictions/ safeguarding concerns in relation to the alleged abuser*

KEY AGENCIES			
Agency:	**Name:**	**Address:**	**Telephone Number:**
GP			
Health Visitor/Midwife			
Nursery/ School			
Other Agency (please specify)			

SUBMISSION OF THE REPORT	
Blaenau Gwent	Duty.Team@blaenau-gwent.gov.uk
Caerphilly	Contactandreferral@caerphilly.gov.uk
Monmouthshire	childduty@monmouthshire.gov.uk
Newport	children.duty@newport.gov.uk
Torfaen	socialcarecalltorfaen@torfaen.gov.uk

OUT OF HOURS/ EMERGENCY DUTY

Between the hours of 17:00pm - 08.30am Monday to Thursday, Weekends and Bank Holidays.
Friday 16:30pm – 08:30am
YOU MUST PHONE
your concerns through to the Emergency Duty Team
0800 328 4432
then complete the Duty to Report Form Child Safeguarding and send to the appropriate Local Authority

Respect and resilience – developing community cohesion

Self-assessment tool 2016

Mae'r teclyn hunanasesiad hwn wedi ei addasu i gyd-fynd â'r Ddeddf Gwrthderfysgaeth a Diogelwch 2015, Fframwaith Archwiliad Cyffredin Estyn a'r dyletswyddau a chyfrifoldebau mae gofyn i ysgolion eu bodloni. Mae hyn yn cynnwys camau i ymdrin â siaradwyr gwadd, digwyddiadau mewn ysgolion, asesiadau risg a diogelu pob dysgwr mewn ysgolion a lleoliadau eraill.

Copïwch y ddolen isod i'ch porwr i weld y teclyn hunanasesiad:

http://gov.wales/docs/dcells/publications/160112-respect-and-resilience-self-assessment-tool-en.pdf

Pwrpas y teclyn hwn, a ddylai gael ei ddefnyddio gyda chyfarwyddyd diweddaraf Parch a Gwytnwch - datblygu cydlyniad cymunedol http://gov.wales/docs/dcells/publications/160111-respect-and-resilience-update-en.pdf (copïwch y ddolen i'ch porwr i weld) yw galluogi ysgolion yng Nghymru i asesu eu lefelau o gydymffurfiad gyda'r Ddeddf Gwrthderfysgaeth a Diogelwch 2015 ac arfer gorau wrth gynnal cymuned dysgu ddiogel.
Gall ysgolion ddefnyddio hyn fel rhestr wirio o'u parodrwydd a'u cydymffurfiad. Mae'n rhoi cyfleoedd i baratoi a gweithredu cynlluniau mewn ymateb i fylchau mewn perfformiad ac unrhyw feysydd cyfrifoldeb a esgeuluswyd. Mae'n bwysig fod ysgolion a'u cyrff llywodraethol yn rhoi blaenoriaeth i'w cynlluniau diogelu i gydymffurfio â darnau hanfodol y Ddeddf er mwyn cynnal cymuned dysgu ddiogel.

Atodiad 8

Trosglwyddo Cofnodion Amddiffyn Plant o fewn Sefydliad Addysgol
Derbynebau

(Printiwch bob gwybodaeth)

Enw'r Plentyn: _____

Dyddiad Geni: _____

Rhif RhDU: _____

Dyddiad Derbyn: _____ Dyddiad Gadael: _____

Enw'r Ysgol Bresennol:

Cyfeiriad yr Ysgol Bresennol:

Enw'r PDD:

Dyddiad cyfnewidiwyd y ffeil o law i law_____**neu**

Dyddiad postiwyd y ffeil trwy gludiant a gofnodwyd:_____

Llofnod y PDD presennol: _____ Dyddiad: _____

Enw'r ysgol sy'n derbyn: _____

Cyfeiriad yr ysgol sy'n derbyn: _____

_____

Enw'r PDD sy'n derbyn: _____

Dyddiad derbyniwyd y ffeil trwy law: _____ **neu**

Dyddiad derbyniwyd trwy gludiant a gofnodwyd: _____

Llofnod y Person Diogelu Dynodedig:

_____ Dyddiad: _____

Sicrhewch os gwelwch yn dda fod y ffurflen hon wedi ei chwblhau yn cael ei dychwelyd heb oedi.
Dylai'r ysgol wreiddiol gadw'r dderbynneb hon yn ddiogel.